YR YMOFYNYDD.

RHIF. 20.] AWST, 1860. [AIL GYFRES.

SEFYLLFA WAREIDDIOL Y CYMRY.

(Parhad o tudal. 153.)

GWASANAETH Y CYMRY YN NGWAREIDDIAD Y BYD.

III. Cyfieithiad y Bibl i'r iaith Gymraeg. Bu cyfieithiad yr Ysgrythyrau o fudd annhraethol i'r Cymry; dyrchafodd eu cymeriad fel cenedl; rhyddhaodd hwynt oddiwrth gaethiwed Pabyddiaeth a choelgrefydd; a dysgodd iddynt lanhau eu moesau, ymarfer eu meddyliau, a chymuno yn uniongyrchol â Duw ei hun, ac a'i Fab, Iesu Grist. Mae, fel y dywedwyd eisoes, gysylltiad rhiniol rhwng gair a chrebwyll; a chan hyny, er fod Protestaniaeth yn llwyddiannus ar y pryd, sef yn nheyrnasiad Elizabeth, dylanwadodd y Beibl yn filwaith mwy grymus ar y Cymry, yn eu hiaith eu hunain, na phe buasai yn dyfod atynt mewn iaith estronol. Y canlyniad fu iddynt ennill sylw duwinyddion, a chyrhaedd enwogrwydd neillduol fel cenedl grefyddol. Denwyd sylw dyngarwyr Iwerddon a'r Alban at ddylanwad yr Ysgrythyrau yn Nghymru; a nododd un o honynt mai y canlyniad dedwydd oedd—hyny yw yn 1812—nad oedd mewn un wlad fwy o rinwedd cyffredinol a phersonol, fwy o ddedwyddwch teuluaidd, fwy o ddiwioldeb gwresog ac Ysgrythyrol, neu fwy o ufudd-dod ac ymostyngiad i'r llywodraeth. Gwelsant yn eglur fod amgylchiadau y Cymry yn gyffelyb i eiddo yr Albanwyr a siaradent y Gaelaeg, a'r Gwyddelod a barhäent i gynal eu hen iaith; a chasglent yn naturiol fod yr un achos yn alluog i gynnyrchu yr un effaith, ac y byddai yr Ysgrythyrau yn yr ieithoedd Gaelaeg a'r Gwyddelig yn debyg o gynnyrchu canlyniadau llawn mor ddedwydd yn yr Alban a'r Iwerddon * ag yr oeddent wedi gwneyd yn Nghymru. Mewn ystyr arall hefyd cafodd esiampl y Cymry ddylanwad pwysig a llesäol. Cyfododd y Gaeliaid amryw weithiau mewn gwrthryfel, ac yr oedd y Gwyddelod bob amser, hyd yn ddiweddar, yn dueddol i godi terfysg. Oherwydd hyn, drwgdybiwyd hwynt gan y Llywodraeth; cysylltwyd grwgnachrwydd â'r ieithoedd cenedlaethol; a daeth agos yn gred gyffredinol y buasai unrhyw gefnogaeth a roddid i'r Gaelaeg a'r Wyddelaeg yn debyg iawn o gynnyrchu mwy o anufudd-dod ymhob un o'r ddwy wlad. Dan yr amgylchiadau hyn daeth esiampl Cymru i gryfhau dwylaw pleidwyr yr hen ieithoedd, a bu yn llesiol iawn i'r Albanwyr a'r Gwyddelod; gwelwyd fod y Cymry yn hynod am eu hufudd-dod i'r llywodraeth, ac fod coleddiad yr iaith Gymraeg, yn cryfhau yn hytrach nag yn gwanychu y rhinwedd hono; a chefnogwyd hwy, gan hyny, i annog eu boneddwyr i rodio yr un llwybr, ac i daenu cyfieithiadau

* *Dewar's Observations on Ireland, p.* 91.

o'r Ysgrythyrau yn ieithoedd y bobl eu hunain. Y canlyniad yw, fod yr efengyl yn cael ei phregethu yn y Gaelaeg a'r Wyddelaeg, fod moesoldeb y ddwy wlad yn ymddyrchafu, ac fod Pabyddiaeth wedi ei dileu agos yn hollol yn yr Alban, ac yn lleihau yn feunyddiol yn yr Iwerddon. Tynwyd sylw at henafiaeth a godidogrwydd yr ieithoedd hyn; adgofiwyd fod ynddynt, y Wyddelaeg yn neillduol, hen lenyddiaeth helaeth; cyhoeddwyd yn rhanau hen farddoniaeth a'r croniclau, gyda chyfieithiadau Seisoneg; coleddwyd hwynt gan ddysgedigion; rhoddwyd lle helaeth i'r Wyddelaeg gan *Professor* Zeuss yn ei lyfr diweddar a elwir "*Grammatica Celtica;*" ac y maent yn awr yn cyfranogi gyda y Gymraeg yn mharch, sylw, a chanmoliaeth dysgedigion ac ieithyddwyr y Cyfandir.

Ond y lles mwyaf a wnaeth y Cymry i ddynolryw, oedd cynhyrfiad Cymdeithas y Traethodau Crefyddol i ffurfio y Fibl Gymdeithas. Tarddodd hon oddiar ymdrechion y Parchedigion T. Charles o'r Bala, a T. Jones o Creaton, i ffurfio Cymdeithas Fiblaidd ar gyfer y Dywysogaeth, pan y cynhyrfwyd y Parch. Joseph Hughes, gwr o haniad Cymreig, i eangu y cynllun, ac i roddi, yn ngeiriau y bardd, y

"Bibl i bawb o bobl y byd."

Mae y ffaith yn ddigon adnabyddus, a'r lles anfeidrol a ddeilliodd oddiwrth y gymdeithas wedi ei fynegu gannoedd o weithiau gan ddynion mwy galluog na myfi, fel nad yw yn ofynol i mi wneyd rhagor nag enwi y ffaith yn y cysylltiad presennol. Cyhoeddwyd hanes y Gymdeithas yn ddiweddar yn yr iaith Gymraeg, gan y Parch. T. Phillips o Henffordd, dan yr enw "Llyfr y Jubili;" a chan fod y llyfr o fewn cyrhaedd y rhan fwyaf o Gymry, bydd yn ddigon i mi derfynu fy sylwadau ar y pen hwn gyda dyfyniad o'r traethawd hwnw. Ar ol enwi y gwahanol wledydd i ba rai y mae y Bibl wedi ei wneyd yn adnabyddus, dywed,—

"Hawdd fyddai i ni deithio trwy bob gwlad i ba un y mae y gair Dwyfol wedi myned, a dwyn ger bron ryw arwyddion neu gilydd o'i allu i achub a sancteiddio. Gallem fyned i blith cenedloedd amrywiog yr America, a chroesi oddiyno i ganol y miloedd gwareiddiedig yn Asia, ac yna myned i ymweled ag Affrica, a sylwi ar y llwythau mwyaf isel a barbaraidd, ac wedi hyny rhoddi tro trwy Ewrop i fysg y cenedloedd mwyaf coethedig; a dygai pob un o honynt brawf diymwad o gymhwysder y Bibl ar gyfer enaid dyn. Tyf y pren bendigedig hwn ymhob hinsawdd; nid yw eira y gogledd yn ei fallu, na gwres difaol y trofanau yn ei wywo: ymhob lle mae yn blaguro, yn blodeuo, ac yn dwyn ffrwyth er mawl gogoniant gras Duw."*

Pwy na lawenycha mewn sefydliad fel y Fibl Gymdeithas? a pha Gymro nad ymlawenha wrth ystyried y rhan ogoneddus sydd gan feibion "Gwyllt Walia" yn hanes y Gymdeithas hon?

Honir yn bur fynych mai Cymro oedd y cyntaf a ddarganfyddodd y cyfandir Americanaidd; ond er cymaint a ddywedir am Madoc ap Owain Gwynedd, ac er mor benderfynol yw yr haeriad anghywir ynghylch ei feddargraff yn "Nrych y Prif Oesoedd," mae yr hanes yn bur ammheus; ac y mae lle i gredu i Madoc gael ei ladd mewn terfysg cartrefol, ac na fu erioed ymhell iawn o wlad ei enedigaeth.‡ Ond os yw hawl y Cymry i'r anrhydedd

* "Llyfr y Jubili, t. d. 248.

‡ Rhag i'r cyfeiriad byr yma gael ei ystyried yn anfoddhaol, ychwanegaf y ffeithiau gwreiddiol. Ar farwolaeth Owain Gwynedd, cyfododd terfysg rhwng Hywel a Dafydd, dau o'i feibion, yn yr hon y lladdwyd Hywel; ac wedi hyny dygwyddodd ymryson rhwng Dafydd a Rhodri, brawd arall. Yn y terfysgoedd hyn, lladdwyd, neu yn hytrach llofruddiwyd Madoc; cyhuddwyd Llywarch ab Llewelyn, "Prydydd y Moch," o'r cynllwyniad, a chafodd brofi ei ddieuogrwydd—trwy gydio yn "yr haiarn twymyn," sef y

hwn yn anfoddhaol, mae iddynt gysylltiad arall â'r Unol Daleithiau sydd lawn mor urddasol, gan fod Cymry, a dynion o haniad Cymroaidd union-gyrchol, yn britho hanes y cyfandir newydd, ac yn sefyll yn y flaenrhes o enwogion America.

Cymro genedigol yn Nghymru, yn 1599, yn mhlwyf Llansawel, Sir Gaerfyrddin, oedd Roger Williams, sylfaenydd Rhode Island, un o'r Unol Daleithiau, a'r deddfroddwr cyntaf yn y byd a fynodd ac a sefydlodd ryddid cydwybod cyflawn a phenderfynol. Dywedir hefyd fod gwaedoliaeth Cymreig yn William Penn, sylfaenydd Pennsylfania. Yr oedd dau ar bymtheg o danysgrifwyr y "*Declaration of Independence*" o darddiad Cymreig; ac mae yn hyfrydwch ac yn anrhydedd i gofnodi eu henwau: sef,

Thomas Jefferson, hanedig o deulu yn Mynyddoedd Eryri.
Benjamin Harrison, ,, o bobl a ddaethant o Gymru.
Samuel Adams, ,, } o deuluoedd Cymreig.
John Adams, ,, }
Stephen Hopkins, ,, o dylwyth Cymreig.
William Williams, ,, eto.
William Floyd, ,, eto.
Francis Lewis, ganedig yn Neheubarth Cymru.
Lewis Morris, o dylwyth Cymreig.
Robert Morris, (A.S., Pennsylvania), o deulu Cymreig.
Francis Hopkinson, (New Jersey), eto.
George Clymer, fe debygir.
John Morton, (Pennsylvania), o dylwyth Cymreig.
John Penn, (North Carolina), eto.
Arthur Middleton, (South Carolina) eto.
Richard Henry Lee, (Virginia), eto.
Francis Henry Lightfoot Lee, (Virginia), eto.
Button Gwinnett, (Georgia), gwr o Gymru.

Yr oedd, gan hyny, y goreuon o drigolion America o haniad Cymreig; arferai Jefferson ymffrostio yn ei waed Brythonawl; ac y mae awdurdod boddhaol am darddiad y lleill. Dywedir hefyd fod pump, os nad saith, o Lywyddion America o'r un gwaedoliaeth, sef

Thomas Jefferson, a enwyd uchod.
James Madison, } ar ochr y fam.
James Monroe, }
William Henry Harrison.
John Adams,
John Quincy Adams.

Y deddfreithydd *(jurist)* enwocaf yn yr Unol Daleithiau, yr hwn a gyfenwir, "Y Mansfield Americanaidd," sef *Chief Justice* Marshall, oedd ŵyr i Gymro o'r hen wlad a sefydlodd ei hun yn Virginia. Mae yn afreidiol dyweyd fod Jonathan Edwards, eu prif ddiweinydd, o'r un haniad; dywedir hefyd, fod yr un gwaedoliaeth yn eu prif areithydd, Daniel Webster; a honaf, ar yr un

"fiery ordeal," i'r hwn y cyfansoddodd Awdl; ac y mae ei gyfoesydd Cynddelw yn enwi Madoc, yn "Marwnad teilu Ywein Gwynet:"—

"Eny llas Madawc mur dygynorth uar
Meu auar car tynnorth
Oet anwas cas cad ehorth
Oet anwar par yn y porth."

Hyny yw, o herwydd lladdiad Madawc, mur llid tymhestlog, mae i ni alar. Car y bobl oedd yn y cwrt ger y llys; yr oedd y gwr (an-wasaidd) yn llidiog yn y frwydr ddiwyd, ac yn arw gorchymynai yn y porth. —Mae y nodwedd ryfelgar hwn yn hollol groes i'r hyn a ddywedir am dano yn gyffredin. Yr oedd rhyw ddirgelwch ynghylch ei lofruddiad, a dichon ei fod yn caru bod yn forwr; ond nid oes un sail i'r gred am ddarganfyddiad America.

awdurdod, fod y *Chief Justice* presennol, sef Roger B. Taney, wedi disgyn oddiwrth deulu yn Ngogledd Cymru.

Gwelwn felly, meddai Cymro Americanaidd, fod y gwr (Jefferson) a gynnygiodd y penderfyniad o blaid annibyniaeth, awdwr y "*Declaration,*" a chadeirydd y pwyllgor a'i ffurfiodd (Harrison), o hil Gymreig. Cymro hefyd oedd *Governor* Morris, a luniodd yr "*American Constitution;*" a Chymro arall oedd y Prif Ynad Marshall, a esboniodd gyntaf yr egwyddorion sydd gynnwysedig ynddo.

Eto, nid yw hyn ond rhan o wasanaeth y Cymry i America. Cymerasant gyfran helaeth yn y rhyfel rhwng yr Unol Daleithiau a Lloegr, ac enwogwyd llawer o honynt yn yr ymdrech hono; a chofnodir yn neilldnol y rhai a ganlynant:—

GENERALS.

Gen. Anthony Wayne, hanedig o Gething-iaid Cymreig.
Gen. Isaac Shelby, fab Evan Shelby, o dylwyth Cymroaidd.
Gen. Morgan Lewis, oedd fab Cymro yn New York.
Gen. William R. Davie, o dylwyth Cymreig.
Gen. Edward Stephens, o deulu Cymreig.
Gen. Charles Lee, a anwyd yn Nghymru yn 1731.
Gen. Richard Winn, o deulu Cymroaidd yn Virginia.
Gen. Daniel Morgan, o deulu Cymreig.
Gen. John Cadwallader, eto.
Gen. Andrew Lewis, eto.
Gen. Otho H. Williams, eto.
Gen. John Thomas, eto.
Gen. James Rees, eto.

Ac heblaw y rhai hyn, yr oedd îs-swyddogion enwog hefyd, megys

Colonel David Humphreys,
Col. Lambert Cadwallader,
Col. Richard Howell,
Col. Ethan Allen,
Col. Henry Lee,
Col. Thomas Marshall,
Col. James Williams,
Captain John Marshall,
Capt. Rogers,
Capt. Anthony Morris,
Capt Isaac Davis,
Capt. Davis,
Lieutenant Shelby,
Commodore Hopkins,

} Y cwbl o ba rai a olrheinient eu hachyddiaeth yn ol at Dywysogaeth Cymru.

Cymry eraill, fel y Dr. John Morgan, y Parchedigion David Jones, Samuel Davies, Morgan Edwards, a David Williams, a enwogasant eu hunain yn yr un amser ac yn yr un ymdrech; ac y mae yn ffaith deilwng o gofnodiad, fod disgynyddion diweddarach yn parhau yn y celfyddydau a'r gwyddorau i ennill clod ac anrhydedd, ac i addurno yr enw Cymraeg. Gwr o Sir Fryeheiniog oedd Dr. Thomas P. Jones, golygydd Dyddiadur y *Franklin Institute;* Cymro oedd Oliver Evans, darganfyddwr yr "*High Pressure Steam Engine;*" a Chymry hefyd yw y lliwiedyddion Powell, a Thomas Buchanan Read; y cerfiedydd, Thomas D. Jones; yr hanesydd, Samuel Jenkins; a'r meddyg hyglod, Alexander Jones. Cymry oedd llawer o ganlynwyr William Penn, y brydyddes Maria James, Anthony Morris, maer cyntaf Pennsylvania, a Thomas Lloyd, llywydd cyntaf y dalaeth hono; a dywedir fod llenyddiaeth,

gwyddorau, a gwladgarwch, y dalaeth hon, wedi dylanwadu yn helaeth ar y wlad yn gyffredinol. Mae Cymru Newydd wedi ei ffurfio tu draw i'r Atlantic; mae rhai parthau, fel Cambria County, yn dwyn enw yr hen wlad; ac mae pum' can' mil o drigolion yr Unol Daleithiau yn tanysgrifio eu hunain yn Gymry. Cyhoeddir pedwar o gyhoeddiadau misol, a dau o newyddiaduron wythnosol, yn yr iaith Gymraeg; mae llawer o gymdeithasau Cymreig yn New York, Philadelphia, Pennsylvania, ac Oneida; a chynnelir eisteddfodau yno yn flynyddol. Traddodwyd darlith yn New York, dydd Gwyl Ddewi, 1855, gan y meddyg Alexander Jones, ar gais Cymdeithas Elusengarol Dewi Sant; a danfonwyd copi oddiyno at yr ysgrifenydd presennol. Testun y ddarlith yw "Cymry y flwyddyn 1776," sef blwyddyn annibyniaeth America; a'r ddarlith hono yw y prif awdurdod am y traethiadau blaenorol. Os gosodir y ffeithiau hyn ynghyd, gwelir yn amlwg fod gan Genedl y Cymry ran anrhydeddus yn hanes yr Unol Daleithiau.

Mae meibion Gwalia wedi gwneyd eu hunain a'u gwlad yn enwog ac yn adnabyddus mewn gwledydd eraill hefyd; a gellir enwi yn neillduol ddau frawd o'r enw Edwards yn Ffrainc. Mae yr Athraw Milne Edwards yn adnabyddus fel bywdraethwr *(physiologist)*, dros yn agos y cwbl o'r byd gwareiddiol; ac nid yw ei frawd yn llai enwog fel ieithydd, ac fel awdwr y traethawd ar yr ieithoedd Celtig, a elwir *Recherches sur les Langues Celtiques*. Meibion Cymro yw y ddau; ac y mae yr olaf yn ei draethawd ar Nodweddion y Rhywiau Dynol, sef *Des Caracteres Physiologiques des Races Humaines*, yn cyfeirio yn neillduol at ei darddiad Cymroaidd, ac yn ein galw "fy nghydwladwyr,"—*mes compatriotes* (tu dal. 30).

RHAG-HANFOD CRIST.—Llythyr V.

Mr. Gol.,—Y mae gennym rai adnodau etto yn Ioan i sylwi arnynt, mewn cyssylltiad a'r athrawiaeth o rag-hanfod ein Harglwydd Iesu Grist. Ar ddwy neu dair o honynt yn unig y cawn sylwi yn y llythyr hwn. Yr adnod flaenaf sydd i'w gweled yn Ioan xiii. 3, "Yr Iesu yn gwybod roddi o'r Tad bob peth oll yn ei ddwylaw ef, a'i fod wedi dyfod oddiwrth Dduw, ac yn myned at Dduw." Dyfod oddiwrth Dduw, fel y sylwasom eisoes, yw dwyn cenhadwri ddwyfol i ddynion; myned at Dduw yw rhoddi cyfrif o'i oruchwyliaeth i'r hwn a'i hawdurdododd ef, ac a'i hanfonodd i'r byd.

Yr adnodau nesaf yw Ioan viii. 42; a xvi. 28. "Pe Duw fyddai eich Tad, chwi a'm carech i: canys oddiwrth Dduw y *deilliais*; oblegid nid o honof fy hun *y daethum* i, ond efe a'm hanfonodd i." xvi. 28, "Mi a *ddaethum allan* oddiwrth y Tad, ac a *ddaethum i'r byd:* trachefn yr wyf yn gadael y byd, ac yn myned at y Tad." Gallesid yn rhwydd gadael yr adnodau hyn yn ngôl eu gilydd, i esbonio y naill y llall. Yr un gair sydd am ddeillio yn yr adnod gyntaf a daethum allan yn yr ail; y mae'r ymadrodd "daethum i," yn y blaenaf, yn atteb i'r ymadrodd, "ac a ddaethum i'r byd," yn yr ail; ac y mae'r cwbl oll yn cael ei esbonio yn yr adnod flaenaf, sef yw hynny, nad oedd Crist ddim wedi dyfod o hono ei hun, neu wedi cymmeryd arno i ddysgu dynion heb un awdurdod; "Nid o *honof fy hun* y daethum i, ond *efe a'm hanfonodd:*" gallesid, meddaf, gadael un adnod i esbonio'r llall yn ddiberygl; ond gan fod rhai yn gosod pwys ar ystyr ddirgelaidd yr ymadroddion deillio, dyfod i'r byd, a myned at y Tad, ni a chwiliwn bob gair neu

ymadrodd trwy eu cydmaru a rhanau ereill yr Ysgrythyr, fel gallom gael allan eu gwir ystyr.

1. Deillio, neu ddyfod allan oddiwrth Dduw. *Exerchomai* yw'r gair Groeg am ddeillio a dyfod allan; y mae'n arwyddocau dwyn cenhadwri Duw yn gyhoeddus i'r byd, ac nid fod un person yn deillio o'r llall mewn rhyw fodd dirgelaidd er tragywyddoldeb; ac nid yw chwaith yn arwyddo symudiad lleol o fyd arall i'r byd hwn; yr hyn a ymddengys yn amlwg oddiwrth y dyfyniadau canlynol. Yn gyntaf, dywedir mai *o Bethlehem* yr oedd Crist i *ddeillio* neu ddyfod allan. Mat. ii. 6, "A thithau Bethlehem, tir Judah, nid lleiaf wyt ymhlith tywysogion Judah, canys o honot ti y daw allan, neu y deillia tywysog *(exeleusetai ęgoumenos*, y deillia arweinydd), yr hwn a *fugeilia* fy mhobl Israel." Deillio neu ddyfod allan i'r byd i fugeilio yw gwaith y tywysog, neu'r arweinydd yma, ac nid dyfod allan, deillio, neu hanu o hanfod y Tad mewn modd dirgelaidd. Y mae Iesu Grist ei hun yn arfer yr ymadrodd "dyfod allan" yn yr un ystyr, Marc i. 38, "Ac efe a ddywedodd wrthynt, Awn i'r trefydd nesaf fel y gallwyf bregethu yno hefyd, canys i hyn y daethum allan," neu y deilliais—yr un gair o hyd. Felly, yn ol Iesu ei hun, dyfod allan yw dyfod i bregethu'n gyhoeddus; a dyfod allan oddiwrth Dduw yw dwyn cenhadwri Duw i ddynion. Yr un modd ni a'i cawn ef yn myned allan i ddysgu yn Marc ii. 13, "Ac efe a aeth allan drachefn (*exélthe*, yr un gair etto, a gyfieithir deillio yn un o'r adnodau dan sylw) wrth lan y môr; a'r holl dyrfa a ddaeth atto, ac efe a'u dysgodd hwynt." Y mae yr un meddwl etto yn Marc iv. 8, "Gwrandewch, wele hauwr a aeth allan *(exelthen)* i hau." Wrth gydmaru yr adnod hon a'r 14eg adnod, y gwelwn mai dysgawdwr cyhoeddus sydd i ni ddeall, "Yr hauwr sydd yn hau'r gair;" felly yr hauwr yn myned allan i hau'r gair yw un yn myned i bregethu'r gwirionedd yn *gyhoeddus*. Felly hefyd y cawn fod yr un gair yn cael ei arfer yn yr un ystyr am ddysgyblion Crist hefyd, sef eu bod yn ddysgawdwyr cyhoeddus y gwirionedd, yn myned allan i bregethu'r gair, Marc vi. 7. Y mae Crist yn danfon y deuddeg bob yn ddau, ac yn rhoddi iddynt awdurdod ar ysprydion aflan, yr un modd ag y cafodd yntau ei anfon gan ei Dad, fel y mae'n dywedyd yn ei weddi yn Ioan xvii, "Fel yr anfonaist fi i'r byd, felly yr anfonais innau hwythau i'r byd." Y modd yr anfonodd Crist ei ddysgyblion i'r byd oedd trwy eu galluogi i wneuthur gwyrthiau, yr un modd hefyd y darfu i Dduw ei anfon yntau, medd ef ei hun, hynny yw, i bregethu'r gwirionedd, a'i alluogi i wneuthur gwyrthiau drosto. Yn ganlynol, yr ydym yn cael i'r deuddeg fyned allan, adn. 12, "A hwy a aethant allan *(exelthontes)*, ac a bregethasant ar iddynt edifarhau." Felly hefyd yn Marc xvi. 20, y cawn yr un meddwl yn gymmwys, "A hwy a aethant allan *(exelthontes)*, ac a bregethasant ymhob man, a'r Arglwydd yn *cydweithio*, ac yn *cadarnhau* y gair trwy arwyddion y rhai oedd yn canlyn." Felly myned allan yw myned i bregethu'n gyhoeddus dan awdurdod ddwyfol. Yr un modd etto yn Luc ix. 6, "Ac wedi iddynt fyned allan *(exerchomenoi)*, hwy a aethant trwy y pentrefi, gan *bregethu'r* efengyl, a *iachau* ymhob lle.

Yr wyf yn sylwi yn nesaf, os yw'r dyfod allan yma yn arwyddo deillio, neu ddyfod o ryw fyd arall i'r byd hwn, fe brawf ormod; oblegid yr oedd y gau-brophwydi hefyd yn rhag-hanfodi ar y tir hwn; oherwydd y mae yr un gair yn cael ei arfer am danynt hwythau, 1 Ioan iv. 1, "Anwylyd, na chredwch bob yspryd, eithr profwch yr ysprydion ai *o Dduw* y maent: oblegid y mae gau-brophwydi lawer wedi myned allan *(exelthontes)* i'r byd." Yma fe wel

y darllenydd fod y gau-brophwydi yn myned allan i'r byd. Y mae'n naturiol i ofyn ble 'roeddent o'r blaen? ac y mae'r atteb yn barod gan bob un, sef, yn y byd bid sicr yr oeddent, b'le arall; ond bryd hynny yr oeddent yn ymddangos yn ddysgawdwyr cyhoeddus? O b'le y daethant ynte? O honynt eu hunain ac nid o Dduw; ond yr oedd dysgyblion Crist, medd Ioan, o Dduw, adn 4, "Chwychwi ydych o Dduw, blant bychain, ac a'u gorchfygasoch hwy; oblegid mwy yr hwn sydd *ynoch* chwi na'r hwn sydd yn y byd." Y mae yma esboniad llawn ar y cwbl. Yr oedd y gau-brophwydi wedi myned allan i'r byd; ond nid oddiwrth Dduw yr oeddent wedi dyfod: nid efe oedd wedi eu hanfon a'u hawdurdodi hwynt. Yr oedd y disgyblion wedi myned allan i'r byd hefyd, neu wedi ymddangos yn ddysgawdwyr cyhoeddus, ac o Dduw yr oeddent hwy; efe oedd wedi eu hanfon, efe oedd ynddynt hwy. Yn 2 Ioan 7, y cawn yr un drychfeddwl etto, "Oblegid y mae twyllwyr lawer wedi dyfod i mewn i'r byd, *(exélthon)*." Felly, os yw'r ymadrodd, dyfod allan, yn dysgu rhag-hanfod oll, y mae'n dangos fod dysgyblion Crist, y gau-brophwydi a'r twyllwyr, un ac oll o honynt, yn rhag-hanfodi hefyd: yr hyn sydd wrthun. Ond, fel y sylwasom yn barod, nid oes yma ddim rhagor nag ymddangos yn y byd fel dysgawdwyr cyhoeddus, ac am y rhai oeddent wedi eu hanfon, neu eu hawdurdodi gan Dduw, gallesid yn briodol ddywedyd eu bod o Dduw, wedi dyfod allan oddiwrth Dduw, dan awdurdod ddwyfol.

2. "Oddiwrth Dduw y deilliais ac y daethum i. Mi a ddaethum allan oddiwth y Tad, ac a ddaethum i'r byd." Y mae Iesu Grist ei hun yn esbonio yr ymadroddion hyn, pan yn ychwanegu yn union, "Oblegid *nid o honof fy hun* y daethum i, ond efe a'm hanfonodd i." Felly yr un peth yw dyfod oddiwrth Dduw a chael ei anfon gan Dduw, yn ol barn yr Iesu. Ond ni a fyddwn ychydig yn fwy manol, er mwyn symud ymaith bob amheuon os y gallwn. Gan hynny, ni a sylwn yn gyntaf ar y gair byd (*kosmos*). Nid yw'r gair hwn bob amser, nac yn wir ond yn anaml iawn yn arwyddo y bellen ddaearol yma, yn y Testament Newydd. "Chwi yw goleuni y byd," medd Crist wrth ei ddisgyblion, Mat. v. 4. Nid goleuni y pridd, y coed, y cerrig, y mynyddoedd, a'r moroedd, y feddyliai; nage, nage. Wel, beth ynte? Goleuni pobl y byd; pwy arall all wneuthur dim defnydd o oleuni'r gwirionedd? Mat. xviii. 7, "Gwae'r byd o herwydd rhwystrau," hynny yw, trigolion y byd, ac nid y pridd a'r cerrig. Ioan i. 29, "Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd," sef pechodau trigolion y byd; ni all dim arall bechu. iii. 16, "Canys felly y carodd Duw y byd," sef trigolion y byd etto. Adn. 17, 19, "Ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd," at drigolion y byd, "i ddamnio'r byd," hynny yw, i ddamnio dynolryw. "A hwn yw'r ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd," neu i ddynion y byd, "a charu o *ddynion* y tywyllwch yn fwy na'r goleuni." iv. 4, "Crist Iachawdwr y byd." vi. 14, "Y prophwyd oedd ar ddyfod i'r byd," hynny yw, at ddynion y byd. Y mae'r meddwl, o ymddangos yn gyhoeddus, yn ymddangos yn llawn yn y vii. 4, "Canys nid oes neb yn gwneuthur dim yn *ddirgel* ag yntau yn ceisio bod yn gyhoedd: od wyt ti yn gwneuthur y pethau hyn, amlyga dy hun i'r byd," h.y., gwna dy hun yn gyhoeddus. Gwel hefyd Ioan viii. 12, 23, 26; a ix. 5.

Y mae'r gair byd yn arwyddocau yr Iuddewon weithiau. Ioan xii. 19, "Wele aeth y byd ar ei ol ef." Bryd arall y mae'n arwyddo annuwiolion y byd, Ioan vii. 7, "Ni ddichon y byd eich casâu chwi, ond myfi y mae yn ei gasâu." xv. 18, "Os yw y byd yn eich casâu chwi, chwi a wyddoch gasâu

fyfi o'ch blaen chwi." Y mae'r gair byd yn aml yn arwyddocau dynion y byd gennym ninnau. Yn yr ymadrodd "y byd a'r eglwys," y mae'n arwyddo dynion digrefydd mewn cyferbyniad i ddynion yn proffesu crefydd. Ac y mae'n ddywediad cyffredin yn ein plith, mai dynion yn dechreu eu byd yw y rhai fyddont newydd briodi. Dywedir hefyd am ddynion cyhoeddus pan fyddont yn myned i sefyllfa ddirgel, eu bod yn ymneillduo oddiwrth y byd.

3. Ni a awn yn awr at yr ymadrodd *dyfod*, a *dyfod i'r byd*. Y dull y cyfarfyddir a'r gair *dyfod* amlaf yw heb y gair byd ar ei ol ef; ond yr un peth y mae'n feddwl yn gymwys, sef ymddangos fel dysgawdwr cyhoeddus, pa un ai wedi ei awdurdodi gan Dduw, neu dyfod o hono ei hun y byddo'r genad. Sylwaf ymlaenaf pan fyddo'r genad dan awdurdod ddwyfol, y mae'n ymddangos yn gyhoeddus y pryd hynny yn enw yr Arglwydd. Mat. xxi. 9, "Hosanah i Fab Dafydd, bendigedig yw yr hwn sydd yn *dyfod yn enw yr Arglwydd*." Ioan v. 43, "Myfi a *ddaethum yn enw fy Nhad*, ac nid ydych yn fy nerbyn i; os arall a *ddaw yn ei enw ei hun* hwnnw a dderbyniwch." Yma y mae'r ddau yn *dyfod*, un yn enw ei Dad, a'r llall yn ei enw ei hun: nid oes eisiau esbonio ymadroddion o'r fath hyn, y maent fel y dydd. Yr wyf yn sylwi yn nesaf, fod yr un iaith yn cael ei harfer am y gau-brophwydi, fel y gwelsom eisoes; y maent hwythau yn dyfod i'r byd, hynny yw, yn ymddangos yn gyhoeddus fel dysgawdwyr dynolryw. Ymddengys hyn ymhellach etto oddiwrth Ioan x. 8, 10. "Cynnifer oll ag a *ddaethant*," hyny yw, ag a ymddangosasant fel dysgawdwyr cyhoeddus, "o'm blaen i, *lladron* ac *yspeilwyr* ynt; eithr ni wrandawodd y defaid arnynt. Nid yw lleidr yn *dyfod* ond i ladratta, ac i ladd, ac i ddistrywio; myfi a ddaethum fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach." Y mae'r un ymadrodd, dyfod, yn cael ei arfer am y lleidr a Christ, dyfod y mae'r ddau, ond y mae'r amcan yn wahanol iawn—un yn dyfod i ladd, a'r llall yn dyfod i roddi bywyd.

Y mae'n amlwg mai dyma feddyliai y bobl yn gyffredin wrth yr ymadroddion *dyfod i'r byd* a dyfod oddiwrth Dduw, sef prophwyd cyhoeddus Duw, neu y Messia. Ymddengys hyn oddiwrth eu gofyniadau, a'r sylwadau a wnaent, Luc vii. 19, 20. "Ac Ioan wedi galw dau o'i ddisgyblion atto, a anfonodd at yr Iesu, gan ddywedyd, "Ai ti yw yr hwn *sydd yn dyfod*? ai un arall yr ydym yn ei ddysgwyl?" Yr oedd yr Iesu yn y byd ymhell cyn yr amser hwn; ond bryd hynny yr oedd yn ymddangos yn gyhoeddus fel y Messia. Y mae'r Iesu yn atteb trwy gyfeirio at ei wyrthiau a'i ddysgeidiaeth, adn. 22, "Ewch a mynegwch i Ioan y pethau a welsoch ac a glywsoch: fod y deillion yn gweled eilwaith, y cloffion yn rhodio, y gwahanglwyfus wedi eu hiachau, y byddariaid yn clywed, y meirw yn cyfodi, a'r tlodion yn derbyn yr efengyl." Ioan vi. 14, "Yna y dynion pan welsant yr arwydd a wnaethai yr Iesu, a ddywedasant, Hwn yn ddiau yw y *prophwyd* oedd ar ddyfod i'r byd." Felly prophwyd cyhoeddus sydd yma. Arferir yr un iaith etto am Ioan Fedyddiwr, a hynny gan Grist ei hun hefyd, ag y mae'n arfer am dano ei hunan: Mat. xi. 14, "Ac os ewyllysiwch ei dderbyn, efe yw Elias yr *hwn oedd ar ddyfod*." Luc vii. 27, "Hwn yw efe am yr hwn yr ysgrifenwyd, Wele yr wyf yn anfon fy nghenad o flaen dy wyneb, yr hwn a barotoa dy ffordd o'th flaen." Mat. xi. 18, 19. "Canys *daeth* Ioan heb na bwytta nac yfed; ac meddant y mae cythraul ganddo. "*Daeth* (yr un ymadrodd yn gymwys, sylwer) Mab y dyn yn bwytta ac yn yfed, ac meddant, wele ddyn glwth, yfwr gwin, cyfaill publicanod a phechaduriaid." Nid

o ryw fyd arall y daeth Ioan i'r byd hyn, nage, nid oes neb yn meddwl y fath beth; ond ymddangos yn gyhoeddus fel cenad Duw wnaeth, heb fwytta nac yfed; felly hefyd, nid dyfod o ryw fyd arall i'r byd hwn wnaeth yr Iesu chwaith, ond ymddangos yn gyhoeddus wnaeth fel prophwyd Duw, ac yr oedd yn bwytta ac yfed fel dynion eraill yn gymwys. O b'le y daeth Ioan? Oddiwrth Dduw y daeth, "Wele fi, medd yr Arglwydd, yn anfon fy nghenad o flaen dy wyneb." Ioan i. 6, 7, "Yr oedd gwr wedi ei *anfon oddiwrth Dduw* a'i enw Ioan. Hwn a *ddaeth* yn dystiolaeth, fel y tystiolaethai am y goleuni." Felly oddiwrth Dduw y daeth Ioan y mae'n amlwg; ond beth sydd i ni ddeall wrth hyn, ond mai cenadwri ddwyfol oedd ganddo. O b'le y daeth Iesu? Oddiwrth Dduw y daeth, a theg yw rhoddi yr un meddwl i'r un ymadrodd, sef, mai cenhadwri ddwyfol oedd ganddo pan yr ymddangosodd fel gwas cyhoeddus Duw, neu'r Messia.

Pe buasai angen wrth ragor o brofion i ddangos mai dyma raid fod y meddwl, y mae i'w gael yng ngwaith Crist yn anfon ei ddysgyblion i'r byd. Ioan xvii. 18, "*Fel* yr anfonaist fi i'r byd, *felly* yr anfonais innau hwythau i'r byd." Yn y byd yma yr oedd disgyblion yr Iesu cyn iddynt gael eu hanfon ganddo; oblegid dywed ef yn adn. 11, "Ac nid wyf mwyach yn y byd, ond y *rhai hyn sydd yn y byd*, a myfi sydd yn dyfod attat ti." Wel, beth yw'r meddwl? Fel yr wyt ti wedi fy anfon i fod yn ddysgawdwr cyhoeddus y gwirionedd, felly, yr un modd yn gymwys, yr wyf finnau yn eu hanfon hwythau i fod yn bleidwyr cyhoeddus yr un gwirionedd, a chanddynt yr un awdurdod a minnau. Pe bai rhyw amheuaeth ynghylch hyn, caiff ei symud ymaith yn hollol ond cydmaru'r addewid a'i chyflawniad yn Ioan xx. 21, 22, "Yna y dywedodd yr Iesu wrthynt drachefn, Tangnefedd i chwi: *megys* y danfonodd y Tad fi, yr wyf finnau yn eich danfon chwi. Ac wedi iddo ddywedyd hyn, efe a anadlodd arnynt, ac a ddywedodd wrthynt, Derbyniwch yr Yspryd Glân." Felly trwy dderbyn y doniau gwyrthiol y cafodd disgyblion Crist eu danfon i'r byd, felly hefyd y cafodd Crist ei ddanfon gan ei Dad. Derbyniodd yr Yspryd tu hwnt i fesur. Yn wir os yw yn rhaid casglu fod Iesu Grist yn rhag-hanfodi oherwydd y fath ymadroddion a dyfod allan oddiwrth Dduw, dyfod i'r byd, &c., y mae'n rhaid casglu hefyd fod Ioan fedyddiwr, disgyblion Crist, ïe, a'r gau-brophwydi hefyd, yn rhag-hanfodi: ond y mae hyn yn wrthun. A chan fod Iesu wedi esbonio y cyfryw ymadroddion ei hun, trwy ddangos mai dyfod yn enw yr Arglwydd, yn enw ei Dad, neu mai ei Dad oedd wedi ei anfon, tra yr oedd eraill yn dyfod yn eu henw ei hun, fel dysgawdwyr cyhoeddus; ond mai lladron, twyllwyr, gau-brophwydi, ac yspeilwyr oeddent, y mae'r casgliad yn rhwydd oddiwrth y cyfan hyn, sef, nad oes rhagor i'w feddwl wrth y cyfryw ymadroddion na hyn, mai cenad ddwyfol oedd yr Iesu, a'i fod yn dwyn y genadwri honno yn gyhoeddus pan y dywedir ei fod yn dyfod i'r byd.

4. "A thrachefn yr wyf yn gadael y byd, ac yn myned at y Tad." Os ymddangos fel dysgawdwr cyhoeddus, dan awdurdod ddwyfol, yw meddwl yr ymadroddion, dyfod allan oddiwrth Dduw, a dyfod i'r byd, y mae'n rhwydd gweled ystyr yr ymadrodd gadael y byd a myned at y Tad, sef ei fod, wedi iddo gyflawni ei swydd, yn ei rhoddi i fynu i'r hwn a'i hordeiniodd iddi. Ac felly y bu hi yn gymwys. Wedi i'r Iesu ordeinio'r deuddeg, a'u hanfon i'r byd, neu i fod yn genadon cyhoeddus yn ei le ef, ni ddarfu i'r Iesu byth wedi'n ymddangos fel dysgawdwr cyhoeddus. Er na ddarfu iddo adael y byd y pryd hwnnw, ac yn wir fe ymddangosodd i Paul ar ei flordd tua

Damascus, ac ar ol hynny amryw weithiau; a dywedodd ef ei hun, "Ac wele yr wyf gyda chwi bob amser hyd ddiwed y byd," neu'r oes hono. Ond fel dysgawdwr cyhoeddus ni ymddangosodd mwy yn eu plith. Yn yr ystyr hyn, ac nid mewn un ystyr arall, y mae yr hyn a ddywedodd ef ei hun yn wir, Ioan xvii. 11, "Nid wyf fi mwyach yn y byd," h.y., fel pregethwr cyhoeddus, ond y rhai hyn sydd yn y byd, y mae y rhai hyn, o hyn allan, i lanw fy lle i fel dysgawdwyr cyhoeddus y gair, a chanddynt yr un awdurdod a minnau, oblegid yr wyf yn myned at y Tad, yr hwn sydd i fod gyda hwynt o hyn allan, megis y bu gyda minnau.

Y mae'r gair Groeg sydd yn cael ei arfer yn yr ymadrodd, "Trachefn yr wyf yn gadael y byd," yn arwyddocau rhoddi i fynu, *aphiemi*. Mat. iv. 22, "Hwythau yn ebrwydd gan adael *(aphentes)* y llong a'u tad, a'i canlynasant ef;" h.y., gan roddi i fyny eu galwad fel pysgotwyr, a ganlynasant yr Iesu." Gwel hefyd Luc v. 11; xviii. 28, 29; Marc i. 18, 20; "Ac yn ebrwydd, *gan adael* eu rhwydau, y canlynasant ef." vii. 8, "Canys gan *adael heibio*," neu roddi i fynu, "orchymyn Duw, yr ydych yn dal traddodiad dynion." x. 28, "Yna y dechreuodd Petr ddywedyd wrtho, Wele nyni a adawsom," neu a roddasom bob peth i fynu, "ac a'th ganlynasom di." xiii. 34, "Canys Mab y dyn sydd fel gwr yn ymdaith i bell, wedi gadael neu roddi i fynu ei dy, a rhoi awdurdod i'w weision."

Y mae'r ymadrodd, myned at y Tad, a arferir yn aml gan Iesu, yn arwyddo rhyw les, mantais, neu fendith, i gael ei rhoddi i'w ddisgyblion, yngwyneb gwangalondid o herwydd marwolaeth eu hathraw, i'r dyben eu parotoi i fyned a'r gwaith ymlaen, wedi iddo ef roddi ei swydd i fynu. Ioan xiv. 2, 3, "Yn nhy fy Nhad y mae llawer o drigfanau; a phe amgen mi a ddywedaswn i chwi, yr wyf fi *yn myned* i barotoi lle i chwi. Ac os myfi a âf, ac a barotoaf le i chwi, mi a ddeuaf drachefn, ac a'ch cymmeraf chwi attaf fy hun, fel lle yr wyf fi y byddoch chwithau hefyd." Yma amcan yr Iesu oedd cyssuro ei ddisgyblion trwy ragfynegi iddynt ei fod ef yn myned i gyflawni addewid y Tad iddynt, trwy eu galluogi i gyflawni eu gwahanol sefyllfaoedd yn nhy ei Dad, sef yr eglwys Gristionogol. Adn. 12, ar ol ymddiddan yr Iesu yn nghylch y lle yr oedd yn myned iddo, y mae'n dywedyd wrth Thomas mai efe oedd y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd, ac nad oes neb *yn dyfod at y Tad* ond trwyddo ef, neu nid oes neb i ddyfod i adnabyddiaeth o'r gwirionedd, a chael ei alluogi gan y Tad i wneuthur gwyrthiau drosto, ond yr hwn sydd yn gwir ganlynwr i mi; yna y mae'r Iesu yn ychwanegu, gan ddywedyd, "Yn wir, yn wir meddaf i chwi, yr hwn sydd yn credu ynnof fi, y gweithredoedd yr wyf fi yn eu gwneuthur yntau he'yd a'u gwna, a mwy na'r rhai hyn a wna efe; *oblegid yr wyf yn* MYNED *at fy Nhad.*" xvi. 7, "Ond yr wyf fi yn dywedyd gwirionedd i chwi; buddiol yw i chwi fy myned i ymaith; canys onid âf fi, ni ddaw y Diddanydd attoch: eithr os mi a âf, mi a'i hanfonaf attoch." xiv. 28, "Clywsoch fel y dywedais wrthych, yr wyf yn myned ymaith, ac mi a ddeuaf attoch. Pe carech fi, chwi a lawenhaech, am i mi ddywedyd, Yr wyf yn myned at y Tad: canys y mae fy Nhad yn fwy na myfi."

Felly meddwl yr ymadrodd i gyd yw hyn, "Trachefn yr wyf yn gadael y byd," yr wyf yn rhoddi i fynu fy swydd gyhoeddus fel enneiniog Duw, ac yn myned at y Tad, er mwyn eich galluogi chwi i gyflawni y swydd bwysig o gario'r gwirionedd ymlaen yn y byd, trwy anfon y Dyddanydd attoch. Meddwl yr adnod i gyd sydd yn ymddangos i mi fel y canlyn:—"Mi a ddaethum allan oddiwrth y Tad;" nid o honof fy hun y daethum, efe a'm hanfonodd,

yn enw fy Nhad yr wyf wedi llefaru'r gwirionedd a gwneuthur gwyrthiau drosto. "Ac a ddaethum i'r byd," neu ymddangosais yn y cyfryw garacter yn gyhoeddus yn y byd, ac yn awr yr wyf yn gadael y byd, neu'n rhoddi'r swydd hon i fynu; ond peidiwch chwi a gwangaloni o herwydd hyn: oblegid, er fy mod yn rhoddi fy swydd i fynu, nid yw'r gwirionedd i fyned i lawr serch hynny; nac ydyw, oblegid gwirionedd Duw ydyw, eiddo y Tad ydyw; yr wyf yn myned at y Tad, ac y mae fy Nhad yn fwy na myfi i'ch gallugogi chwi i gario'r gwaith ymlaen. I'w ddwylaw ef yr wyf yn rhoddi fy swydd i fynu, yr hon a gefais ganddo; ac er fy mod yn ei rhoddi i fynu i'w ddwylaw ef, y Tad yw, efe a ofala am danoch, ac fe lwydda'r gwirionedd yn *fwy* nag erioed, oblegid y mae fy Nhad yn fwy na myfi. Fe wel y darllenydd fod y meddwl hwn yn gysson a'r cyssylltiad ond iddo ddarllen o'r 19 i'r 28 adnodau o'r xvi. o Ioan. Gan obeithio y gwnaiff y darllenydd hynny er mwyn arbed trwbl ac amser, gorphwysaf unwaith etto,

Yr eiddoch yn garedig,

N.

ATTEB I'R GOFYNIAD—

"PAHAM YR YDWYT YN UNDODWR?"

(Parhad o tudal. 166.)

4. Oherwydd fod hyd yn od yr adnodau hynny o'r Ysgrythyr, ar y rhai y gosodir mwyaf o bwys gan y rhai sydd yn dal yr athrawiaethau yma,—Trindodiaid mwyaf dysgedig yr oes bresennol a'r oesoedd sydd wedi myned heibio —bob yn un ac un wedi cael eu hesponio ymaith gan y rhai sydd yn dal yr athrawiaethau yma eu hunain;—un yn gwrthod un adnod fel yn annigonol; —un arall yn dywedyd fod adnod arall yn annghymmwysiadol;—a thrydydd yn gofyn,—"Pa le mae'r dirgelwch sanctaidd a chyssurus hwn (y Drindod) yn cael ei osod allan yn ffurfiol yn yr Ysgrythyr?"—Un yn rhoddi i fynu un prawf o'r Hen Destament, ac un arall yn rhoddi i fynu brawf arall o'r Newydd;—un a "chywilydd annbraethol arno o herwydd fod duwinyddion diweddar wedi ymladd nerth dant ac ewin" am adnod yr hon meddai efe sydd yn ffugiol (*spurious*) tu hwnt i bob amheuaeth;" yr hon adnod, cofier, yn ol un arall, a ddylai—oni bai hyn—gael ei gosod ym mlaenaf yn y rhessymmiad. Ac felly y maent yn myned yn y blaen, un yn symmud *prop* yma, un arall yn symmud colofn acew, nes y mae yr holl adeilad yn siglo hyd ei sail: a pha ryfeddod, gan *nad* oes nac Ysgrythyr na rheswm i'w ddal i fynu.

5. O herwydd fod nifer luosog o adnodau eglur, y rhai ydynt yn bwysfawr iawn, y rhai nis gellir eu cyssoni â'r athrawiaethau yma. O'r cyfryw yw'r adnodau hynny i gyd, yn y rhai y mae'r enw TAD yn cael ei gyfleu i'r gwrthrych mawr o addoliad dwyfol. Ac nid yn unig yr oedd Crist ar bob amser yn gweddio ar ei Dad, ac arno Ef yn unig, ond yr oedd hefyd yn dysgu ei ddysgyblion i wneuthur yr un peth; ac wrth ei annerch Ef yn bennodol wrth y teitl yma, y mae yn dywedyd, "Ilyn yw'r bywyd tragywyddol iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw, a'r hwn a afonaist ti, Iesu Grist." Ac ar achlysur arall, yr ydym yn ei gael yn gwneuthur y dadguddiad difrifol yma o effaith mawr ei gennadwri ef,—mewn iaith, yr hon sydd o oes i oes, wedi seinio ar glustiau dynolryw, ac wedi suddo yn ddwfn i galonnau dirif,— "Dyfod y mae yr awr pan addolo y gwir addolwyr y TAD mewn yspryd a

gwirionedd: canys y cyfryw y mae y Tad yn eu ceisio i'w addoli Ef. Yspryd yw Duw, a rhaid i'r rhai a'i haddolant Ef addoli mewn yspryd a gwirionedd." Ac yn gysson a hyn, y mae'r apostol yn dywedyd,—"I ni nid oes ond un Duw y Tad." Os nad oes ynteu ond *un Duw y Tad:* neu yng ngeiriau Crist, os y *Tad* yw'r *unig wir Dduw*, nis gall fod un Duw arall—yr hwn rhaid fod os yw'r Mab yn oruchaf Dduw hefyd,—oblegid ni ddywed hyd yn od y Trindodiaid mai y Mab *yw y Tad!*—mai yr ail berson yn y Drindod yw'r person cyntaf hefyd!—byddai hyn yn myned dros hyd yn od eu *system* hwy.

Yn ddiweddaf. Oherwydd fod egwyddorion Undodiaeth, pan y byddont yn cael eu dilyn yn deg, yn arwain i'r canlyniadau goraf a dedwyddaf. Wrth egwyddorion Undodiaeth—y rhai ydynt yn gorwedd wrth sail y golygiadau crefyddol a adnabyddir wrth yr enw yma,—yr wyf yn meddwl yn neillduol y ddau a ganlyn:—

1. Hawl a dyledswydd pob dyn i wneuthur arferiad rhydd a chyflawn o'i reswm ei hunan ar bwnc crefydd; y rheswm hwnnw yr hwn y mae Duw wedi ei roddi i fod yn arweinydd iddo; a'r hwn, gan hynny, y mae efe yn rhwym o'i ganlyn; mewn cydymffurfiad a'r awdurdod ysgrythyrol uwchaf, sef Crist ei hunan, yn y geiriau nerthol a bythgofiadwy hyn,—"A pha'm nad ydych, ïe, o honoch eich hunain yn barnu yr hyn sydd gyfiawn?"

2. Wrth esponio yr Ysgrythyr—i dalu'r sylw pennaf a mwyaf neillduol i'w brif wirioneddau a ffeithiau—i'w rediad cyffredin, ei dueddiad, a'i amcan—ac yn neillduol i beidio gosod ystyr anghysson a hyn,—gan wneuthur gwahaniaeth bob amser rhwng yr hyn sydd leol, neillduol, ac amserol, a'r hyn sydd ddyledswydd parhaus a chyffredinol. Y mae, fel y gellir disgwyl, lawer o adnodau tywyll mewn ysgrifeniadau mor hened, ac o gynnifer o wahanol amseroedd. Ac mewn perthynas i'r rhai hyn, gellir chwilio yn ddyfal, a chyda budd hefyd, heb eu gwneuthur yn brawf penderfynol o un athrawiaeth—a llawer llai i osod i fynu *ein meddwl ni* ar eu hystyr, mewn gwrthgyferbyniad i'r gwirioneddau a'r ffeithiau mwyaf anwadadwy.

Dan arweiniad yr egwyddorion yma, y mae golygiadau Undodiaid yn tueddu,—nid i neillduolrwydd ond i gyffredinolrwydd,—nid i gyfyngu cylch ymchwiliad, na gosod terfyn ar yr ymofyniad am wybodaeth, ond i roddi iddynt le rhydd. Y mae pob gwirionedd yn cael ei gyfrif yn werthfawr. Y mae goleuni nattur a darganfyddiadau dadguddiad—casgliadau uniawn rheswm ac addysgiadau yr Ysgrythyr, i'w gweled yn egluro ac yn cynnal y naill y llall. Edrycher ar bob peth ag sydd yn dal perthynas a diwygiad a gwelliant dyn fel yn dyfod o fewn cylch addysg grefyddol; ac y mae Crefydd ei hunan, nid fel gwasanaeth ffurfiol, allanol,—cylch o ddefodau pennodol, yn sefyll o'r neilldu oddiwrth bob goruchwylion a buddioldeb dyddiol; ond fel egwyddor fywiol, yn treiddo trwy bob peth, yn ymgymmysg a phob gorchwyl, ac yn arwain pob gweithred bywyd. Y mae'r cyntaf a'r mwyaf o'r holl wirioneddau, fel yn cynnwys pob gwirionedd arall, yn cymmeryd y lle uwchaf,—fod Un Duw, yr hwn yn unig sydd yn meddu perffeithrwydd anneilliedig ac anymddibynol—unig ffynhonell bodoliaeth a gwynfydedigrwydd i'r bydysawd yr hwn y mae Efe wedi ei greu,—Duw a Thad pawb, sylwedd yr hwn yw cariad,—a'r hwn, ond edrych arno fel yma, sydd yn dyfod yn wrthrych "y parch, y diolchgarwch, a'r cariad mwyaf, y mae'r natur ddynol yn alluog o hono." Ond y mae yn eglur mai yng ngharacter Tad y mae y golygiadau yma yn cael eu cyffroi felly mor nerthol tuag at y

Bod mawr hwn. Os yn lle hwn y gosodwn Tad cyfansoddol, ffrwyth ein dychymmyg ein hunain, yr ydym yn tywyllu y gogoniant Dwyfol; ac y mae ein addoliad yn troi allan yn wasanaeth dyryslyd a gwahanedig; yn cythryblu ac nid yn sefydlu ac yn cyfodi y meddwl. Ond yn addoliad yr Un Yspryd Tragywyddol, fel Tad Cyffredinol, y mae'r galluoedd yn cael eu cysseinio; a gwirioneddau eraill yn cael ei gweled yn fwy eglur: ac felly y mae cennadwri ddwyfol Crist yn ymddangos yn waith o ddwyfol gariad. Danfonodd Duw ei Fab i'r byd er achub a bendithio'r byd. Fe ddaeth Crist,—nid, yn ol iaith garlammus proffeswyr uniawngred, i roddi iawn i ddwyfol gyfiawnder, nac i ostegu'r llid dwyfol; ond fel cennad ac amlygiad disgleiriaf trugaredd a chariad Dwyfol. Bu fyw, dysgodd, dioddefodd, a bu farw, mewn ymroddiad ystig i amcanion mawr ei gennadwri, (cennadwri wedi ei dystio gan aneirif wyrthiau o drugaredd a chan ddoethineb a gwybodaeth goruwchddynol)—gan osod o flaen dynion ganlyniadau eu gweithredoedd, a'u galw i ddychwelyd fel plant erwydrol ac afradlon, at Dad trugarog. Cafodd ei gyfodi oddiwrth y meirw trwy allu Duw. Haeriad y ffaith hon, y mwyaf yn ei chanlyniadau ag sydd ar gof yn hanes y byd, oedd canolbwynt pregethiad yr apostolion; ac yr oedd credu'r ffaith hon yr un peth a chredu Cristnogaeth ym mhob parth lle'r oedd wedi ei daenu; lledodd y ffaith hon trwy'r byd ddysgwyliad am fywyd dyfodol, a barn i ddyfod, a gobaith am anfarwoldeb, i raddau a gyda chymmaint o allu na welwyd erioed o'r blaen; ac yn ei dylanwadau moesol yr oedd tuhwnt i gyfrif. Ond y mae hyn oll yn myned yn y blaen ar y tir fod Crist yn *ddyn*, nid mewn ymddangosiad ond mewn gwirionedd,—"gwr profedig gan Dduw,"—ac wedi ei appwyntio ganddo Ef i fod yn Iachawdwr y byd.

Ac mewn cydgordiad a'r golygiadau yma, cyfraith cariad yw rheol bywyd. Megis mai "Un yw ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd," felly "ninnau oll brodyr ydym." Megis mai "Cariad yw Duw,"—felly "yr hwn sydd yn trigo mewn cariad, sydd yn trigo yn Nuw, a Duw ynddo yntau." "Cyflawnder y gyfraith yw cariad, a rhwymyn perffeithrwydd,"—y ffordd i ni fod yn "ganlynwyr i Dduw fel plant anwyl,"—i fod fel Efe, "canys daionus yw Efe i'r rhai anniolchgar a drwg,—ac felly i ymdrechu "bod yn berffaith, fel y mae ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd." Trwy feithrin yr yspryd hwn, y deuir i edrych ar erlidigaeth gydag argasrwydd; nid yn unig yn ei ffurfiau mwyaf garw, sef ymosodiad ar ryddid, eiddo, a bywyd; ond hefyd yn y dull o ddifenwi, beio, a nodi ag enwau enllibus y dynion hynny sydd yn gwahaniaethu oddiwrthym yn eu barn.

Gan gredu y gwirioneddau ardderchog ac urddasol fod dyn wedi ei greu ar ddelw Duw, yr ydym yn gwrthod, fel athrawiaeth yn groes i hon, ac yn groes i rediad cyffredinol yr holl Ysgrythyr, megis ac y mae hefyd i reswm a synwyr cyffredin,—yr athrawiaeth fod nattur dyn yn wreiddiol ac yn hollol lygredig ac halogedig; yn gystal a'r un sydd wedi tarddu oddiwrthi, sef anallugrwydd holiol dyn, trwy arfer ei alluoedd ei hun (y galluoedd a roddodd Duw iddo—y talentau am y rhai y bydd efe etto yn cael ei alw i gyfrif) i gyrhaedd "cyfiawnner a gwir sancteiddrwydd." Y mae, yr ydym yn credu, i'r arferiad, yr hwn sydd mor gyffredin, o barhau yn daer ar yr annghymmwysder hwn, dueddiad uniongyrchol i lwfrhau a gwanhau y meddwl, ac i roddi esgusawd am cydymddygiad beius â thueddiadau ac arferiadau drwg. Y mae amcanion addysg grefyddol fel hyn yn amlwg yn cael eu rhwystro. Ffordd ryfedd yn sicr i berswadio dynion i *rywbeth*, i ddechreu trwy ddy-

wedyd wrthynt nas gallant wneuthur *dim!*—Rhyfedd, rhoddi cynghor da, ac ar yr un pryd sierhau i'r dynion i'r rhai yr ydych yn ei roddi *nas gallant ei dderbyn;* ac ymhellach, ei fod o bwys mawr iddynt *wybod nas gallant!* Y ffordd oreu i gymhell y meddwl i fywiogrwydd iachusol ydyw trwy deimlad o ddioleligarweh am y galluoedd amrywiol a rhyfedd a'r rhai y mae wedi ei ddonio; a phan y byddo mewn cymmundeb a Thad yr yspryd-oedd, yn cael y cymmorth a'r annogaeth y rhai ydynt yn addawedig i bawb, y rhai fyddont, wrth ei chwilio, yn gwerthfawrogi yn iawn, ac yn ddiwyd yn gwella y talentau a roddwyd dan eu gofal. Ac y mae ymhob man ddigon o drosedd *gweithredol* a diffyg cyflawni dyledswydd, i alw i arferiad helaeth yspryd gwir ostyngeiddrwydd ac edifeirwch dwfn a diffuant.

Yr ydym yn edrych yn y blaen yn ddibetrus a chyda boddlonrwydd calon, at y lledaeniad helaethach o'r egwyddorion a'r golygiadau yma—gan gredu y bydd iddynt gyflwyno eu hunain i ystyriaeth ddiffrifol meddyliau ystyriol. Yr ydym yn hyderu arnynt fel y cyfaredd *(antidote)* sicraf yn erbyn y tueddiad hynny at ammheuaeth ac annghrediniaeth, yr hwn sydd wedi cyfodi i raddau mor helaeth oddiar y darluniadau afresymmol (fel yr ydym ni yn eu cyfrif) sydd wedi cael eu gwneuthur o Gristionogaeth. Ac yr ydym yn llawn ac yn hyderus ddysgwyl yr amser, pan y bydd y rhai hynny sydd yn awr yn cam-ddarlunio, oherwydd eu bod yn cam-ddeall ein golygiadau, yn uno a ni i gydnabod eu gwirioniedd a'u pwysfawrogrwydd, ac yn cymmeryd rhan gyda ni yn eu dylanwad llesiol. Ein amcan pennaf—y dymuniadau a'r gobeithion goreu a allwn lettya yn ein mynwesau yw, fod i bob un i ddilyn yn ffyddlon oleuni'r gwirionedd, fel y mae yn disgleirio o ffynhonell gwirionedd, gannad trwy ba gyfrwng bynnag y delo iddo—fel y byddo pob un yn myned yn y blaen mewn parottoad am y cyflwr goruchel hwnw, lle bydd y cynneddfau godidocaf a'r serchiadau puraf yn cael eu galw i arferiad uchel, gwyntydig a byth-gynnyddol—lle bydd cymmylau cyfeiliornad a rhagfarn wedi eu gyrru ymaith—lle bydd pob ofnau, a blinderau, ac ymraniadau, wedi terfynu—a lle bydd "angau y gelyn olaf wedi ei ddinystrio,"—lle mae'r "cariad nad yw byth yn cwympo ymaith," yr hwn sydd yn dylifo o'r *Un* ffynhonell anfeidrol a didrai, a'r hwn a deyrnasa dros bawb ac ym mhawb, heb attaliad na rhwystr yn ddiddiwedd.

Cyfd. S.

Y BACHGEN A'R TRYDANYR.

Yn ffenestr *shop* gwneuthurydd offer gwyddorol *(scientific instruments)* yr oedd peiriant trydanawl *(electrical machine)* wedi cael ei osod, yr hwn a dynodd sylw glasleneyn oedd yn byw gerllaw. Edrychai arno â llygad taer ac astud. Gan gymaint ei gywreingarweh, craffai yn fanwl ar bob rhan o hono. O'r diwedd, wedi hir a manol edrych ar y peiriant, dyna awrlais gyfagos yn taro—yntau a dasgodd fel un yn cael ei ddeffroi o gwsg, ac a redodd gyda phob brys tua gweithdy ei feistr. Y bachgenyn ydoedd fab i weithiwr, gôf; a bwriad ei dad ydoedd i'w ddwyn yntau i fynu'n weithiwr, ond nid mewn crefft mor galed-lafurus a'r eiddo ei hun. Yn debyg fod rhyw wendid ac eiddilwch yn perthyn i'r bachgenyn fel nas gallasai ddilyn galwad ei dad, ac felly breintwaswyd ef i lyfr-rwymydd yn *Blandford Street, Marylebone.* Yr oedd yn llanc diwyd, hoff o'i waith yn oriau gweithio, a

hoff o ddarllen yn oriau seibiant. Yn neillduol carai lyfrau yn traethu ar destunau celfyddgar. Hoffai yn fawr ddarllen yn nghylch rhyfeddodau fferylliaeth, ond yn neillduol yng nghylch trydaniaeth—yr elfen nerthol hono sydd yn llechedenu allan o'r taran-gwmwl, yn trigo yn anweledig yn y gwlithyn, ar gyffyrddiad yn trydanu'r gïau oll, ac megis yspryd anweledig, ond nerthol, yn treiddio pob peth o gymylau'r nef hyd at briddellau y ddaear. Un diwrnod cafodd allan drachefn y ffenestr lle yr oedd y peiriant trydanawl yn cael ei arddangos, a phob mynyd ag a allasai hebgor rhedai tuag ati, gan nodi dull a mesuriad pob boglyn, a gwyfr, a throell, a phlâd, a berthynai iddo gyda'r manylrwydd mwyaf. Yna penderfynodd i ymgeisio gwneuthur peiriant cyffelyb iddo'i hunan os yn ddichonadwy. Felly, gan foreu-godi yn yr haf, gweithiai yn ddyfal wrth y peiriant hyd nes myned at ei waith. Ym mhen amser, daeth y gorchwyl i ben, a deallodd, 'nol ei orphen, y gwnelai y tro. Cyffyrddodd â'r boglyn prês, a'r ergyd iasol a aeth trwy ei holl gorph mewn canlyniad nid ydoedd ddim i'w gydmaru â'r llawenydd a ddychlamai yn ei galon wrth weled fod ei anturiaeth wedi llwyddo. Dangosodd ef i'w feistr, yr hwn, am ei fod yn ddyn caruaidd a synwyrol, a gafodd ei foddio yn fawr, ac ni synai byth ddigon am gywreinrwydd y llanc. Yr oedd ei feistr yn dra hoff o ddangos trydanur ei freintwas diwyd i bob un a fyddai'n debyg o deimlo dyddordeb mewn hogyn ieuanc celfydd. Yn eu plith yr oedd amryw o gymrodorion y *Royal Society* a fyddai ganddynt weithiau efallai drwydded, neu *admission ticket*, i'w hebgor. Ym mhen ychydig flynyddau ar ol hyn, wedi tyfu o'r hogyn celfydd i fynu yn ddyn ieuanc, yn awr megis cynt yn sylwi â llygaid agored ar bob peth, ac yn trysori'r cyfan a welai yn ei feddwl, wele fe wedi cael cyfleusdra i edrych, nid mewn ffenestr *shop* ar yr *electrical machine*, ond oddiar eisteddle yn narlith-ystafell y *Royal Society* ar Syr Humphry Davy yn gwneuthur prawon defnwyddol *(chemical experiments)*, a thrwy hyn yn amlygu gweithrediadau rhai o elfenau dirgel a nerthol anian. Ni wyddai'r dyn ieuanc pa un i ryfeddu fwyaf, ai'r peirianau glandeg, y prawon rhyfeddol, neu y ddarlith hyawdl—yr oedd y cyfan mor newydd, mor ddyddorol iddo! Ond y darlithydd enwog uwchlaw pawb a phob peth arall oedd gwrthrych ei ryfeddiad mwyaf. Yr oedd y dyn ieuanc wedi darllen, a gwyddai nad oedd Syr Humphry Davy wedi cael ei eni o riaint cyffredhog, er ei fod yn hanu o bobl rinweddol a chymeradwy. O dref anghysbell Penzance, yn nherfyn gorllewinol pellaf Lloegr, yr oedd y dyn mawr hwn wedi dyfod. Yr oedd yn hunanddysgol gyda golwg ar y rhan fwyaf o bethau a wyddai, ac wedi ymddyrchafu nes yn awr yr oedd yn sefyll ym mhresenoldeb boneddigion ac urddasolion y wlad. Tân athrylith oedd yn fflamio yn ei lygaid a geiriau doethineb a ffrydient dros ei wefusau hyawdl! "O na allwn ddilyn camrau y gwyddon mawr," oedd dymuniad dirgel calon y gwrandawr ieuanc. Y meddwl hwn a ffrwythodd mewn gweithrediad. Parodrwydd oedd un o brif hynodion cymeriad y dyn ieuanc, ac felly efe a benderfynodd i ysgrifenu at y ffaryllydd enwog, a dywedyd wrtho yr ewyllysiai yn fawr ddilyn rhyw alwad heblaw yr un yr oedd wedi cael ei freintwasu iddi, ei fod o galon yn caru gwybodaeth, ac y teimlai ei hun yn ddeddwydd iawn pe cae ei osod mewn unrhyw swydd yn ffaryllfa gwr mor enwog. Cam hyf oedd hwn, ond yr oedd y cais, er yn daer i'r eithaf, yn llawn gwyledd a gostyngeiddrwydd nodweddol o wir deilyngdod. Ni esgeuluswyd ei lythyr, gwnawd ymofyniadau, a'i feistr caredig ni fynai er dim luddias ei freintwas i ddechreu gyrfa i'r hon yr oedd ei dalentau a'i feddwl myfyrgar

yn ei lawn gymhwyso. Bu hefyd y peiriant trydanawl o'i wneuthuriad ei hun yn gynorthwy iddo, a thrwy'r naill beth fel y llall rhoddwyd iddo ddymuniad ei galon; caniattaodd Syr Humphry Davy iddo i ddyfod i mewn i'w fferyllfa, a chafodd fanteision helaeth i fyfyrio a chynhyddu. Nid oes eisiau dywedyd na wastraffodd y gwr ieuanc hwn ddim o'i amser, ac na esgeulusodd ei gyfleusdeiau. Syr Humphrey Davy a fu farw gan adael ar ei ol enw anwyl i'r dyngarwr yn gystal ag i'r gwyddon; ond ni bu ei le yn hir yn wag. Pwy sydd yn ei lanw yn awr? Efe, tymor i'enetyd yr hwn yr ydym uchod yn ammherffaith wedi ceisio brasddarlunio—efe, darlithiau yr hwn yn y *Royal Institution* a wrandewir yn astud gan y Tywysog Albert a Thywysog Cymru—yr enwog a'r gorhoff bresenol Broffeswr Faraday. "Calon y synhwyrol a ymgais â gwybodaeth," Diar. xv. 14. "A welaist ti wr diesgeulus yn ei orchwyl? efe a saif ger bron brenhinoedd," Diar. xxii. 29.

JUNIUS.

ANGHYSONDEB ERLIDWYR PROTESTANAIDD.

Rhan o Lythyr oddiwrth yr enwog Andrew Dudith, at y Parchedig Theodore Beza.

NI fu erioed burach pin na'r eiddo Dudith. Gyda chadernid deall, nerth ymresymiad, grym dysgeidiaeth, a haelder ymadrodd, yr annerchodd ddnwiol erlidwyr Zurich a Geneva. "Yr ydych chwi yn dadleu," eb efe wrth Beza, "fod yr Ysgrythyr yn berffaith reol ffydd ac ymarweddiad; ond yr y'ch chwi i gyd yn ymrannu yaghyleh synwyr yr Ysgrythyr, ac nid ydych etto wedi sefydlu pwy gaiff fod yn farnwr. Yr ydych chwi yn dweyd un peth, Stancarus beth arall. Yr ydych chwi yn dyfynu *(quoto)* Ysgrythyr, mae yntau yn dyfynu Ysgrythyr; yr ydych chwi yn ymresymu, ac y mae yntau yn ymresymu. Yr ydych chwi yn gofyn i mi eich credu chwi. Y mae gennyf barch i chwi: ond pa'm yr ymddiriedaf ynoch chwi mwy na Stancarus? Yr ydych chwi yn dywedyd mai *heretic* yw. Mae'r Pabyddion yn dywedyd mai *heretic-iaid* ydych eich deuoedd. A gaf eu credu hwy? Y maent yn dyfynu hanesion a theidiau. Felly yr y'ch chwithau. At bwy mae eich annerchiad oll? Pa le mae'r barnwr? Yr ydych yn dywedyd fod yspryd y prophwydi yn ddarostyngedig i'r prophwydi; ond nid wyf *fi* brophwyd, meddwch: ac yr ydwyf finnau yn dywedyd, nad y'ch chwithau brophwydi. Pwy sydd i fod yn farnwr? Yr ydwyf fi yn caru rhyddid cystal a chwithau. Yr ydych chwi wedi torri eich *iau*, goddefwch i minnau dorri'm *iau*: yr ydych wedi ymryddhau odditan draws-lywodraeth y prelatiaid pabaidd. Paham yr ydych yn troi yn ormeswyr eglwysaidd eich hunain, ac yn trin craill gyda'r fath greulondeb barbaraidd, am yn unig wneuthur yr un peth ag y rhoisoch eich hunain yn esiampl iddynt? Yr ydych yn ymhonni mai eich gwrandawyr llygol, y swyddwyr dinasaidd sydd i'w beio am alltudio, a llosgi am *heresi*: ond dywedwch wrthyf, a ydych ddim wedi sisial y fath egwyddorion i'w clustiau? A wnaethant hwy rywbeth ragor nag ymarferyd yr athrawiaeth a ddysgasoch iddynt? Oni phregethasoch mor ogoneddus oedd amddiffyn y ffydd? Onid y'ch yn canmol yn wastadol y tywysogion hynny sydd wedi di-bobli rhaglawiaethau cyfain, am *heresi*? Onid y'ch yn dysgu'n feunyddiol y dylai'r cyfryw a appeliant oddiwrth eich cyffesau at yr Ysgrythyr gael eu cospi gan yr awdurdod wladol? Oni ŵyr yr holl fyd mai math o frawdleoedd ydych, ac nad yw'r swyddwyr dinasaidd yn gwneyd dim yn gyhoeddus nad y'ch chwi yn ei ddysgu'n ddirgel? Yr ydych yn ceisio cyfiawnhau alltudiaeth Ochin, a dihenyddiad craill; ac yr ydych yn dymuno i Poland ddilyn eich siampl. Na atto Duw! Pan fyddoch yn son am eich cyffes Augsburg, a'ch credo Helfetic, eich undeb, a'ch gwirioneddau sylfaenol,—yr ydwyf finnau yn parhau i feddwl am y chweched orchymyn, NA LADD. Ffarwel, Barchedig a dysgedig *Beza*, cymmer yn dda yr hyn a ddywedais, a pharhaed dy garedigrwydd tuag attaf." Nid yw hyn ond ychydig, etto mae'n ddigon i ddangos tymmer y dyn. Yr oedd ef (fal y dywed

y gwrageddos ar hyd y wlad) o waedoliaeth uchel, yn fab i Jerom Dudith, dirgel gynghorwr Ladislaus brenin Hungari, o ardderchog Arglwyddes o deulu Sbardelati; efe a aned mewn castell yn agos i Buda, yn Hungari. Chwefror 1533, rhai yn dywedyd 1537: bu farw ei dad pan oedd yn ieuanc iawn. Ei ewythr, Arch-esgob Strigonia a gymmerodd ofal i'w ddysgu. Adnabu yn fuan fod gydag ef bob gallu oedd gymmwys i wneyd dyn mawr. Antonwyd ef i Breslaw, yna i Padua, ac oddiyno i Paris. Dychwelodd adref wedi ei uchel berffeithio, mewn pob math o ddysgeidiaeth a chelfyddydau teg; ac yn hynod o ran ei ber-araith a'i rinweddau. Ymwelodd â Lloegr gyda Chardinal Pole, bywyd pa un wedi ei ysgrifenu'n *Italian* gan Beccotelli a gyhoeddodd yn Lladin gyda diwygiad a chwanegiad, ynghyda rhagymadroddi wedi ei ysgrifenu'n rhagorol. Yn nesaf yr aeth i'r Iwdi lle cyhoeddodd rhai sylwadau dysgedig: yn fuan wedy'n yr aeth i Ffrainc. Yr oedd yn cael ei hoffi yn fawr, a'i ganmol ynhob man o ran ei ddymmer a'i ddygiad i fynu. Aeth i lys yr ymerawdwr yn Vienna; ac yn 1561, y dewisodd Ferdinand ef i fod yn Esgob Tinia, yn Croatia, ac a'i hanfonodd ef yn Genhadwr (*Embassador*) at Sigismund brenin Poland. Gan yr Ymerawdwr ac offeiriaid Hungari, yr appwyntiwyd ef i fod yn rhaglaw drostynt i gynghorfa Trent, lle gwnaeth araith, o blaid i'r offeiriaid gael priodi, ac un arall ar i'r cwppan gael ei gyfranna yn Swpper yr Arglwydd i'r werin gyffredin. Llefarodd gyda'r fath hyawdledd, fel yr ysgrifenodd y rhaglawiaid at Cardinal Boromei, i ddywedyd, er i'r areithiwr gadw llawer o'u hamser ag oedd at ddefnydd arall, etto iddynt gael eu boddhau cymmaint, mal y llyncwyd meithder yr amser gan ardderchawgrwydd yr araith!—na chlywsant y fath beth erioed!

Y Pab a ddychrynodd rhag ofn ei alluoedd; a thyceiodd gyda'r Ymerawdwr i'w alw yn ol; ond pan adroddodd Dudith hanes y gynghorfa, yr oedd Ferdinand yn dra boddlon i'w ymddygiad, ac a'i gwobrwyodd ag esgobaeth Chonat, ac yn fuan wedi'n á'r Quinque Ecclesiæ, neu'r pum eglwys. Oddiyma dychwelodd i Poland, a pharhaodd yn Genhadwr oddiwrth yr Ymerawdwr. Tra fu yn aros yno y sarhaodd wrth anfoesoldeb y llysoedd, a choelgrefydd filoraidd eu heglwys. Darostyngodd i ddarllen gwaith Blandrata a Davidis, ac a gydunodd â hwynt yn eu meddyliau crefyddol, er na welsai mo honynt erioed. Erbyn hyn yr oedd yn cael ei gyfrif yn *heretic*. Rhoddodd i fynu ei holl fywioliaeth eglwysig; ysgymmunodd y Pab ef; ond diystyrodd ei *anathema*. Parhaodd yr Ymerawdwr, oherwydd amryw resymmau, i'w amddiffyn.

Yr oedd yn dra hyddysg mewn amryw ganghennau o philosophi, *mathematics*, y celfyddydau o physygwriaeth, hanes, duwinyddiaeth, a chyfraith ddinasaidd; ysgrifenodd Cicero deirgwaith drosodd a'i law ei hun. Yr oedd rhywbeth o fawrhydi yn ei olwg, a dull ei wynebpryd, er ei fod yn wylaidd a chywilyddgar fel benyw. Ei fywyd oedd reolaidd a rhinweddol, ei ymddygiad yn hardd ac esmwyth, a'i haelioni yn helaeth a hynaws. Y darluniad hwn, gan mwyaf, a roddir iddo gan ei elynion. Beth a ddywedasai ei gyfeillion am dano y rhai a'i badwaenent oreu?

Yn ei lythyrau at ddawinyddion Switzerland, y mae yn dymuno arnynt beidio ei annerch, yn eu hepistolau, á'r teitlau preladaidd balch a roddasai heibio gyda phabyddiaeth. Y mae yn galaru am gyflwr yr eglwys ddiwygiedig yn Poland, "yr hon," eb efe, "sydd yn debyg i gymmysg y prydydd, yn dwym ac oer, gwlyb a sych, yn ymryson am feistrolaeth." Ymdrechodd i brofi i'w holl ohebwyr (*correspondents*) nad oedd dim sut beth ag undeb ffydd yn eu plith, ac nad oedd dim ymgallu dyn ei ddwyn chwaith. Dywedodd "fod eu hertbyglau yn fwy teilwng o gael eu galw yn gymmysgfau na chyffesau;" dangosodd yr ynfydrwydd o appelio at y teidiau a'r cwnsli: a chondemniodd, mewn modd neilltuol, pob math o erledigaeth mewn crefydd. "Dywed wrthyf," eb efe, "ddysgeidiaeth gyfaill Wolff, yn awr y mae'r Calfinistaid wedi Dosgi Servetus, a thorri pen Gentilis, a lladd llawer craill; wedi alltudio Bernard Ochin, ei wraig a'i blant o'u dinas, yn nyfader gauaf caled: ac y mae'r Lutheriaid wedi ymlid ymaith Laseo, ynghyda'r gynnulleidfa o ddieithriaid a ddaethant o Loegr, ar dywydd garw, a'r amser llym o'r flwyddyn: wedi gancyd llawer o'r fath orchwylion, yn gwbl groes i ysprvd Crist'nogaeth,—P'a fodd, yr wyf yn gofyn, ïe, pa fodd y cyfarfyddwn á'r Pabyddiaid? Gyda pha wyneb y gallwn edliw iddynt eu creulondeb? Pa fodd y beiddiwn haeru, *nad yw orfau'n milwriaeth yn gnawdol?* P'a fodd y gallwn yn hwy dlywedyd, *Gadewch i'r ddau gyd-dyfu hyd y cynhaaaf?*

Gadewch i ni roddi fynu ymffrostio, bellach, na ellir gormesu ffydd! ac y dylai'r gydwybod fod yn rhydd!"

Ei gredo oedd Anthem yr angylion, "Gogoniant yn y goruchaf i Duw, ac ar y dlaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da." Am ei fod yn ymdrechu byw i fynu at ei broffes, cafodd lawer iawn o elynion; rhai yn ei alw'n ddyn di-egwyddor, (*Sceptic*) am nad oedd yn ochri gyda'r pleidiau i ladd a llosgi ereill; ie, galwent ef yn *Ddeist* ac yn *Atheist*, am nad oedd yn credu eu cyffesau hwynt. Uno ld gyda'r blaid a dlealiai ryddid crefyddol oreu, pryd hynny, yn *Poland*, y *B—d—r:* gyda hwynt yr oedd yn cael ymresymmu ar bob pwnc o grefydd, heb neb i'w enllibo am gredu yr hyn a feddyliai fod yn wir. Yr oedd yn egwyddor sylfaenol, yn y corph hwnw, nad oedd Duw ddim yn barnu dynion yn ol eu hopiniwnau, mewn perthynas i bethau tywyll; ond yn ol uniondeb eu hegwyddor, i ymofyn am y gwirionedd, ufuddhau i'r gwirionedd, a byw yn ei ol. Ond yn yr amseroedd tywyll, yr oedd pob math o ddiwygiadau yn cael eu cyfrif yn heresi, a pha fwyaf tebyg i Grist y byddai dynion, mwyaf i gyd y caent eu herlid, gan y rhai a elwid yn Grist'nogion iawn ffyddiog.

Ond mal un o lawer, cafodd Dudith orphen ei yrfa mewn tangnefedd, allan o gyrhaedd faethau ei elynion. Hunodd yn *Breslaw*, prif ddinas *Silesia*, yn y 57 flwyddo'i oed. Ymadawodd â'r fuchedd hon, fal rhyw afon ddwfn, ddisglaer, yn ymddiysbyddu ei hun i'r môr, wedi ymddyrchafu ar bob rhwystrau, a myned heibio ei hoil droiadau, a gorphen ei gyrfa yn y cefnfor diorphen; felly yntau'r diwrnod cyn ei farw, yn llawn trugaredd a ffrwythau da, ac mewn perffaith iechyd, a anfonodd ei was am ddyn tlawd, yr arferai ei gynnorthwyo: dychwelodd y gwas, ac a ddywedodd wrtho, na allai gael gafael yn yr hen wr y diwrnod hwnnw. "Ti a ddylasit fynnu gafael ynddo heddyw," ebe yntef, "canys yforv ni bydlaf, o bosibl, mewn sefyllfa i'w gynnorthwyo." Y diwrnod nesaf yr oedd yn ymddangos o'r goreu; ond ar ei waith yn cael ei gymmell i swppera allan gyda chyfaill, yr attebodd, "Rhaid i mi swppera mewn lle arall! rhaid i mi farw." Aeth i'w wely, a galwodd ar ei deulu a'i gyfeillion i eistedd gydag ef. Gwnaethant felly, ac efe a ymddyddanodd â hwynt dros yspaid dwy awr, neu chwaneg, ynghylch pethau crefyddol; ac yna gogwyddodd ei ben ar ei wely, ac a ymadawodd yn dawel a'r byd trafferthus hwn.—*Cylchgrawn*, 1793.

PENOD AR RAGFARN.

1. A dygwyddodd, ar ol y pethau hyn, fod Abraham yn eistedd yn nrws ei babell, a'r haul ar fachlud.

2. Ac efe a welodd ddyn yn ddiffygiol gan oedran, yn dyfod o ffordd yr anialwch, a'i bwys ar ei ffon.

3. Ac Abraham a gododd i'w gyfarfod ac a ddywedodd wrtho, Tro i mewn, a golch dy draed ac aros dros y nos; a thi a gei godi yn fore, a myned i'th daith.

4. A'r dyn a ddywedodd, Nid felly, canys mi a arosaf o dan y pren hwn.

5. Ond Abraham a'i cymhellodd yn daer, fel y trodd ac yr aethant i mewn i'r babell; ac Abraham a grasodd fara croew, a hwy a fwytasant.

6. A phan welodd Abraham na thalai y dyn ddioleh i Dduw, dywedodd wrtho, Paham na wnei addoli y goruchaf Dduw, Creawdwr nef a daear?

7. A'r dyn a atebodd ac a ddywedodd, Nid wyf yn addoli dy Dduw, nac yn galw ar ei enw; canys gwneuthum i mi fy hun Dduw, yr hwn a drig yn wastad yn fy nhy, ac a ddarpar i mi bob peth.

8. A chynneuwyd digllonedd Abraham yn erbyn y dyn, ac efe a ruthrodd arno, ac a'i gyrodd trwy guro allan i'r anialwch.

9. A Duw a alwodd Abraham, gan ddywedyd, Abraham, pa le mae'r dyeithr-ddyn?

10. Ac Abraham a atebodd ac a ddywedodd, Arglwydd, nis addolai di, ac nis galwai ar dy enw; am hyny y gyrais i ef ymaith i'r anialwch oddi ger bron fy wyneb

11. A Duw a ddywedodd, A wyf fi wedi cyd-ddwyn ag ef am ddau cant amyn dwy o flynyddau, a'i feithrin a'i ddilladu ef er ei wrthryfel i'm herbyn, ac oni allesit ti, yr hwn wyt dy hun yn bechadur, gyd-ddwyn ag ef am un noswaith?

12. Ac Abraham a ddywedodd, Na chyffroed llid fy Arglwydd yn erbyn ei was. Wele, pechais; maddeu i mi, atolwg.

13. Ac Abraham a gododd ac a aeth allan i'r anialwch, a chwiliodd yn ddyfal am y dyn, ac a'i cafodd, a dychwelodd gydag ef i'r babell, ac ar ol ei drin yn garedig, efe a'i hebryngodd ymaith yn y bore, gydag anrhegion.

FRANKLIN.

Gohebiaethau.

YNGHYLCH CYTHREULIAID AC ANGELION.

Mr. Ymofynydd, — Gan fod enw eich cyhoeddiad clodwiw yn rhoddi rhyddid i mi ymofyn am wybodaeth, beiddiaf anfon hyn o linellau yn gyfeiriedig at eich dysgedigion; a gobeithiaf y bydd i un, neu ragor o honynt, wneyd sylw o hono.

Clywais bregeth dydd Sul cyn y diweddaf, yn Rhydygwin, Ceredigion; a'i swm ydoedd torri i lawr y dyb oedd gynt yn ffynu ymhlith yr Iuddewon, yn amser Crist a chyn hyny, ac etto am a wn i: a gwn ei bod yn cael ei choleddu ymhlith fy nghydwladwyr fy hun, *mewn rhan;* sef fod ysbrydion neu gythreuliaid drwg yn cyfaneddu mewn cyrph rhai dynion, a pheri iddynt ynfydu, a'u taflu yn tân, i'r dwfr, a thorri eu hunain â cherrig, &c. Clywais hefyd gan Jones, (gynt) o Llangollen, eu bod hwy yn llefaru yn y ddau ddieflig hyny fu yn mhlith y beddau, a'u bod yn lleng ynddynt; ac y gwyddai ef (sef Jones) eu rhif a'u rhywogaeth, oblegyd mynegodd ar y pryd, yn Tynygwndwn, fod y rhyw hyny wedi cael eu danfon ar *special business* gan eu mheistr, er mwyn rhwydo'r Gwaredwr, a'u bod yn ddarostyngedig o gael eu poeni os na chadwent ereill yn y cyfryw. Er prawf o'u medrusrwydd yn eu celfyddyd cyfeiriai at y testunau canlynol:—Mat. viii. 28, 29, a 31; Marc iii. 11, &c. Yn awr, ysbryd y bregeth ragddywededig oedd gyfangwbl yn erbyn tyb o'r fath; ond cofiwch, mai athrawiaeth newydd i glyw llawer yw peth o'r fath; a dywedent, "clywsom bethau anhygoel heddyw," &c.

Ond, yn ol fy nhyb i, beth oedd yn fwy naturiol i feddygon y cynoesoedd pan gyfarfyddent a chlefydau nas gallent eu gwellhau, ond eu priodoli i ysbrydion drwg a chythreuliaid, pan wyddent fod eu *patients* yn credu trawseneidiad, (*metempsychosis*)? Ond esboniodd y pregethwr y mater fel hyn, neu'n debyg, trwy ddwyn ymlaen achos Pope ac ereill; a haerodd na wnaeth Crist erioed daflu allan o un dyn gythraul na diafol, fel bodau neu ysbrydion yn bersonol: ond iddo daflu y dyb oedd gan y claf am dano ei hun allan, sef ei fod yn llawn o'r fath fodau, canys dywedai un o'r cyfryw, "Lleng yw fy enw, canys llawer ydym." Cynghorodd y llefarwr ni hefyd, fel gwrandawyr, i ddarllen *Farmer on Demoniacs,* os wyf yn cofio yn iawn. Ac am nad yw y gwaith genym yn Gymraeg, crefaf ar ein gwyr dysgedig i wneyd eu mheddyliau yn eglur ar y pwnc, gan yr ystyriwyf y byddai hyny i fod yn angau i ysbrydion, gwylltiaid, a gwrachod, a phob gwan feddwl a neidia i fynwesau rhai dynion nol machlud haul. Hefyd, wrth darllen yn yr Hen Destament a'r Newydd, ceir lle i feddwl fod tyb arall, neu gangen o'r un dyb, yn meddyliau yr Iuddewon, sef fod ysbryd neu angel yn gwylio pob dyn; ac ychwanegant fod yr angelion yma yn tristau neu lawenhau fel y byddo i wrthrych eu gofal gadw neu golli y llwybr cul: ac mae gan y cyfryw sydd yn dal yr athrawiaeth hon beth sail o'r Ysgrythyr yn yr adnodau canlynol:— Salm xxxiv. 7; xci. 11; Preg. v. 6; Mat. xviii. 10; Act. xii. 15; Heb. i. 14.

Terfynaf, trwy obeithio cael eglurhad mor fuan ag y gelllr, o'r ddau beth, os dau hefyd. Hyn yw taer erfyniad eich ewyllysiwr da,

Ap Gryff.

Felinfach, Ystrad.

MODRYB NANSI.

Meistr Golygydd, Syr,—Os bernwch y bydd hanes Modryb Nansi yn adeiliadol i rai o'ch darllenwyr, bydded at eich gwasanaeth. Hwyrach y bydd rhywrai yn barnu iaith Modryb yn isel a dichwaeth, wrth y rhai y gellwch ddweyd nas gallasai hi oddiwrth hyny, oblegid dyna glywodd hi gan ei mham. Yr wyf yn credu pe byddai i rai o'ch gohebwyr i osod allan y pwnc mewn rhyddiaith goethedig dealladwy, y gwnelai les, oblegid lle heuir anwir a thwyll, ofer y dysgwylir gwirionedd ac uniawnder i flaguro. Yr eiddoch yn barchus,

Dewi Dawel.

O ran fy mod yn bygwth rywbryd ddweyd,
Mae'n rhywyr imi ddechreu weithian. *
Modd y gwelais i Modryb Nansi'n gwneyd
Pan oedd yn magu phlant ei hunan:

'Roedd Nansi wrth reddf naturiol mam
Yn caru'i phlant i'r eitha'n anwyl;
Ac ni oddef'sai iddynt byth gael cam
'Nol ei gallu hi mewn gair a gorchwyl.

'Roedd *Johni*'n un bach glân a phurion ffel,
A gadael heibio ragfarn gibddall;
Ond yr oedd Modryb Nansi yn ei wel'd
I rywle heibio un plentyn arall:
A dywedai yn ei th'w'llwch ambell dro,
"Mae arna'i ofn 'cha'i ddim o'i gadw,
Oblegid rhai ifenc fel hyn yn ffel a fo,
Rywfodd mae nhwy yn debyg iawn o farw."

Pan daeth cymmalau dyner Johni dlws
Yn gryf, a dechreu t ripian cerdded,
Fe ddywedai Modryb, "Mae *bwcci* yn drws,
Gochel di, a'r *bo* ar bwys y pared;
Ond ni foddlonai haeriad galon iach,
Heb wel'd a oedd yn y geiriau sylwedd;
A'r peth cyntaf a ddeallodd Johni bach,
Oedd bod ei fam ei hun yn gweyd anwiredd.

Tyfodd Johni'n wrol yn y bla'n,
A llygad llym yn chwantu pobpeth;
Ym mhlith anneirif y teganau màn,
'Roedd rhaid i Johni bach gael cylleth;
"Na chei," meddai 'Modryb, "hen gylleth gàs,
Rhag ofn itti dorri'th fysedd;
Ond 'nol hir daeru a thaeru ma's,
Fe'i rhoddwyd iddo yn y diwedd.

"Dyna," meddai Modryb, "bellach gad dy 'stwr,
Taw son yr *horswn* bach ceintachlyd—
Paid a'i cholli ôn'te mi chwippa'n siwr,
A chei di ddim un newydd hefyd."
Ond colli honno a sawl un arall wnawd,
A Nansi'n para bygwth ac yn rhoddi,
A Johni ffel yn mwngial yn ei wawd—
"Mae mam yn para i weyd ei ch—lwi"

Para i roi teganau oedd y fam,
A Johni bach yn colli'r cyfan,
Nes i *datta* ddechreu ceintach am
Eu bod yn gwario cymmaint arian:
"Dere di, ni werthwn ni wyau'r gieir,"
Meddai'r fam, "ran bod dy dad mor *hwnco*,
Cyllell ac amryw bethach ereill geir,
A hynny heb yn wybod iddo."

Fe ddysgodd Johni bach y wers yn glau,
Gan ddweyd yn llawen yn ei fochau,
"Ga'i bethach heb yn wybod i chwi'ch dau,
Pryd y myno i, tra paro'r wyau."
Wyau ac amryw esgeulusion màn
Allasai Johni droi yn arian;
Ladrattai, a Modryb chwarddai'n làn,
"Ei fod mor ffel yn cario'i hunan."

Aeth Johni'n ewnach ewnach gyda'i law
Ar bobpeth gawsai afael ynddo,

Nes gorfu i'r cymmydogion yma â thraw
Gymmeryd gofal am eu heiddo:
Cyhuddai ambell un ef yn ei ddant,
Attebai Modryb mewn digasedd,
"Ni ddysgais i erioed ddim un o mhlant
Yn lladron nac i weyd anwiredd.

"Y ch'i 'nysgodd i," 'be Johni wrth ei fam
Yn ddistaw bach, "ac nid neb arall:"
"Fi!" 'be Modryb dan droi ei chern yn gam,
"Cer' o'na'r ioncyn bach haner-call."
Carco'i hunan byddai Johni ym mhob man,
Fel oedd pan oedd yn gwerthu wyau;
A Modryb ddywedai am bob 'stori wan,
"Mi grynta i gwnaiff Jack o'r gorau.

Pan ddysgodd amser John i edrych am
Ei law rhag myn'd i afael cyfraith,
Fe fynodd ffordd at goden fraith ei fam,
Ac aeth a hanner honno ymaith:
Dechre' pwyo hwn a phwyo'r llall a wnaf,
Gan ewi'n bendant ryw gymmydog;
A Modryb ddywedai "Dyna fe'n ddilai,"
Er gwyddai'n burion pwy oedd euog.

'Roedd Modryb hefyd yn grefyddol iawn;
A dysgai'r plant yn ol ei deall—
Bod byd ar ol hwn, byd dedwydd llawn,
I'w gael yn haeddiant rhywun arall.
'Roedd Johni ffel yn para'n ffals o hyd,
A gwelodd trwy ddirgelwch rhyfedd
Y ffordd i gario'i hunan yn y byd,
A myn'd i'r nefoedd yn y diwedd.

Mr. Gol.,—Y mae yn wir ddywenydd genyf weled yr Ymofynydd yn dal ei dir mor ardderchog yn ngwyneb gelynion mor lluosog; y rhai sydd, mewn amser ac allan o amser, yn perswadio dynion, nid yn unig i beidio ei dderbyn, ond i beidio sylwi arno, rhag dinystr eu heneidiau! Yn awr, paham y maent mor genfigenus wrth lwyddiant eich cyhoeddiad? "Paham yn wir!" atteba rhyw un; "am ei fod yn traethu anwireddau ac yn dywedyd yn groes i'r Beibl, bid sicr." O nage. Pe hyny fyddai yr achos, gwnaent annog y bobl i'w ddarllen er gweled ei dwyll. Mae'n amlwg taw nid hyny yw yr achos, beth bynag. Y gwir achos ydyw hyn:—Y mae yr Ymofynydd yn gosod y fwyall at wraidd y prenau yr ymgysgodant danynt; heblaw dwyn i'r amlwg bethau a fynir eu cadw dan cudd. A da y gwyddant, neu y gŵyr rhai o honynt, hyny; felly nid yw yn rhyfedd eu bod mor egniol dde fnyddio pob dyfais o'u heiddo i gadw dynion rhag darllen a chwilio a gwybod pa sut mae pethau yn

bod. O! dywyllwch Trindodawl! Pa hyd y goddefir iddo! Ond "Goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo ddim tywyllwch."

Y mae yn hysbys i chwi, Mr. Gol., fod ngeiniau lawer o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD heb ericed glywed gymaint sg un bregeth yn cael ei thraddodi gan lefarwr Undodaidd. Felly yr wyf, ar ddymuniad rhai o'r cyfryw, yn dymuno arnoch i gyhoeddi ambell i bregeth a draddodir yn achlysurol yn y cyfarfodydd tri-misol. Diau y bydd eich parchus gyd-weinidogion yn foddlawn i hyny. Mewn llawer cymydogaeth, hyd yn oed yn Morganwg, nid oes obaith am gael clywed pregeth Undodaidd. A swm a sylwedd yr oll a glywir bob Sabbath yn gyffredin yw, fod yn rhaid wrth waed un person i ddofi llidiawgrwydd person arall; hyny yw, fod yn rhaid wrth waed un *Duw* cyn y gellir myned at y llall; canys haerant fod Crist yn gystal Duw â'r Tad. Fath *gabala* baganaidd. Ac etto haerant taw yr un Duw yw y ddau!

Dos rhagot, YMOFYNYDD tawel, a dinoetha eu twyll gwaradwyddus. Llefara yn hyf wrth y Cymry hynaws, a dywed wrthynt ei bod yn bryd iddynt bwyllo bellach, a chyhoedda'n groch y gwirioneddau nefol, mai un Duw sydd, a hwnw yn Dad.

Y mae y digwyddiadau rhyfedd sydd yn awr yn cymeryd lle yn *Sicily* a *Naples* yn tynu sylw pawb. Wrth ddarllen yr hanes mi ryfeddais beth, pan welais yn "*Lloyd's Weekly Newspaper*" am yr wythnos hon, y geiriau canlynol:—"The members of the Directing Committee are all *Unitarians* and Annexationists to a man." Yn awr dymunwn gael gwybod oddiwrthych pwy a pheth yw yr "Unitarians" crybwylledig.

Pe deallwn fod eich gofod yn caniattau, gwnawn anfon ddernyn yn awr ac eilwaith i'r YMOFYNYDD.

Gan ddymuno llwydd i'ch cyhoeddiad rhydd a chlodwiw,

Ydwyf, Mr. Gol., yr eiddoch yn barchus,

GWILIEDYDD GLANTAF.

Gorph. 16, 1860.

[Bydd yn dda genym bob amser glywed oddiwrth ein "Gwyliedydd" ar lan y Taf. Nis gallwn addaw dros ereill; ond yr ydym yn gobeithio y galluogir ni i gyhoeddi y pregethau tri-misol, neu y sylwedd o honynt, yn yr YMOFYNYDD. Ac mewn perthynas i'r "Unitarians" soniedig (yn Lloyd's Newspaper) yr ydym yn meddwl, os nid yn sicr, mai plaid *boliticaidd* ydynt yn hollol—heb un berthynas â chrefydd. Y maent dros *undeb* trwy holl *Italy*,—un genedl, un wladwriaeth, a dan yr un llywodraeth; ac am hyny, cyfenwant eu hunain yn "Unitariaid."—GOL.]

Hanesion Cartrefol a Thramor.

OFNWN y bydd ein darllenwyr politicaidd i gael eu siomi yn y Rhifyn hwn. Mae ein gofod rywfodd wedi troi i maes yn brinach nag yr oeddem yn ei ddisgwyl. Gobeithiwn nas teimlir hyny yn golled. Bydd amgylchiadau pryderus Ewrop a'r Dwyrain, ddigon tebyg, yn fwy dealladwy yn mhen mis nag y maent yn bresenol. Ond y mae arwyddion yn rhoddi ar ddeall fod ein byd ar fin cyfnewidiadau mawrion, ac y bydd crefyddau'r byd yn gystal a'i llywodraethau i gael eu dwyn i'r prawf. A cheir gweled, ond odid, maes o law, fod gan Ragluniaeth law yn y pethau hyn. Y mae yn sicr fod rhai o'r "hen bethau ar fyned heibio." Pwy a wyr na chaiff rhai o honom weled gwell amser yn gwawrio ar y byd lle'r y'm yn byw.

Y SENEDD.—Y mae matterion y wladwriaeth yn cael eu dwyn ymlaen yn bur hwylus—miliynau lawer wedi cael eu gosod ar bobl y wlad i dalu am y rhyfel â China, ac am yr amddiffyniadau. Pa fodd bynag, y mae'r Ymneilduwyr wedi enill y dydd mewn perthynas i'r broffes grefyddol ag oedd i fod yn ofynedig yn y *census*.

Y LLYS.—Mae Tywysog Cymru wedi myned ar fordaith i ymweled â'r Drefedigaeth yn Canada; a dysgwylir y bydd iddo dalu ymweliad i'r Unol Daleithiau, lle y bydd derbyniad groesawus iddo. Mae ei dad, y Tywysog Gwaddoledig, yn ddiweddar wedi enill clod ychwanegol iddo ei hun trwy yr araith ragorol a draddododd ar agoriad yr "*International*

Statistical Congress." Ar y pwnc o "*Statistics,*" nid y'm yn cofio gweled mewn argraff ddim i'w gystadlu a hi.

Y Cyfandir.—Yn Senedd Ffrainc y mae aelodau Republicanaidd wedi beiddio gwrthwynebu mesurau y Llywodraeth. Ac yn Awstria hefyd yr ydys yn cynnyg gwelliantau pwysig yn ei llywodraeth hefaeth. Nid y'm yn deall fod proffesiadau edifeiriol Brenin Naples, hyd yn hyn, wedi enill ymddiried ei bobl ei hun na neb eraill. Ond yn ol y newyddion diweddaraf y mae wedi galw ei filwyr oll o Sicily, ac felly gadael yr ynys oll i Garibaldi a'i blaid.

Syria.—Tynir sylw cyffredinol, ar hyn o bryd, at y trychineb sydd wedi cymeryd lle yn ardaloedd *Libanus*. Ymddengys bod Llywodraeth Twrci, gan nad beth am ardaloedd eraill, wedi colli ei dylanwad ar bobl Syria. Y mae y *Druses*, plaid haner paganaidd, a haner Mahometanaidd, wedi ymosod, ymron yn annisgwyliadwy, ac yn y modd creulonaf, ar y *Maronites*, plaid o Gristionogion Pabaidd ag oeddent yn preswylio yn eu cymydogaeth; gan eu lladd a'u hysbeilio yn ddiarbed. Y mae y Sultan wedi tystio, mewn llythyr at Ymherawdwr Ffrainc, pa mor ddrwg oedd ganddo fod y fath drychineb wedi cymeryd lle, ac y byddai iddo ar unwaith anfon milwyr i Syria, a chospi'r troseddwyr. Ond heb gwbl ymddiried, y mae Ffrainc a Lloegr wedi gweled yr angenrheidrwydd o anfon llynges a milwyr i Syria, er amddiffyn y Crist'nogion yno rhag eu gelynion ffanaticaidd a chreulon.

CWRDD BLYNYDDOL.

Cynnaliwyd cwrdd blynyddol gweinidogion Undodiaid Deheubarth Cymru dydd Mercher a Iau, y 27 a'r 28ain o Fehefin, yng Nghiliau a Rhydygwin. Dechreuwyd prydnawn dydd Mercher am dri o'r gloch yn Nghiliau, trwy ddarllen a gweddio gan Mr. J. Davies (Myfyriwr); wedi hynny, traddodwyd pregeth gan Mr. R. J. Jones (Myfyriwr), oddiar ran o Mat. xvi, 10, ac ar ei ol pregethodd y Parch. Wm. Thomas, M.A., gweinidog Llwynrhydowen a Bwlchyfadfa, ar y geiriau a welir yn Iago i. 22, 23, 24.

Ar gais rhai o aelodau eglwys yr Independiaid yng Nghilcennin, aeth rhai o'r cyfeillion drosodd o Giliau i gynnal cwrdd yno am saith yn yr hwyr. Dechreuwyd gan Mr. J. Evans (Myfyriwr), a phregethwyd gan y Parch. T. Thomas, oddiar ran o'r xviii. 37, o Efengyl Ioan, a chan y Parch. Titus Evans oddiar Rhuf. xiii. 12.

Boreu dydd Iau, dechreuodd y Parch. T. Evans y cyfarfod; ac yn absenoldeb y Parch. Dr. Lloyd, pregethodd y Parch. John James ar Iago i. 14, 15. Ar ol y bregeth, appwyntiwyd y Parch. W. Rees, gweinidog y lle, i'r gadair, ac awd at bwne y gynnadledd, sef "Beth yw gwir ddiwyglad?" Llefarwyd arno gan y Parchedigion canlynol: W. Thomas, O. Evans, T. Evans, a John James.

Am dri y prydnawn, pregethodd y Parchn. T. Evans ac O. Evans—y cyntaf oddiar Gal. vi. 14, a'r ail oddiar ran o Heb. xii. 2.

Am saith yn yr hwyr cadwyd cwrdd yn y Cribin, pryd pregethodd y Parch. T. Evans oddiar Rhuf. xiii. 12.

Penderfynwyd fod y cwrdd blynyddol nesaf i fod yn Rhydypare, a'r Parch. W. Thomas, M.A., i bregethu y bregeth, a bod y Cwrdd Cwarter nesaf i fod yn y Cribin, a'r Parch. Dr. Lloyd i bregethu, neu os na fydd yn bresennol, y Parch. J. E. Jones o Benybont-ar-Ogwr. Pwne y gynnadledd yn y Cribin fydd, "Beth yw'r gwahaniaeth rhwng coap a cherydd, a pheth yw nattur a diben pob un o'r ddau?"

U.

MARWOLAETHAU.

Gorph. 9, bu farw Joshua Davies, o Danyffynon Llwynrhydowen, yn 84 o'd. Dechreuasai y trengedig ei yrfa grefyddol yn eglwys Alltyblaca, ond treuliodd y rhan fwyaf o honi yn aelod cyson a defnyddiol o Eglwys Llwynrhydowen. Estynai ei arddeliad cyhoeddus o Gristionogaeth rydd dros dymhor o ragor na thriugain o flynyddau. Yr oedd yn meddu ar nerth corphorol hwnt i'r cyffredin, yr hwn a barodd heb lesghau llawer, ag ysfyried ei oedran, hyd y diwedd. Gweinyddwyd yn ei angladd gan y Parch. D. Griffith, Tavistock, Devon, a'r Parch. W. Thomas, A.C., Llwynrhydowen, yr hwn a bregethodd oddiar 2 Tim. 4, 7. Claddwyd ef yn mynwent Pantydefaid.

Bu farw Gorph. 1, yn 50 mlwydd oed, Mr. Griffith Thomas, Masons' Arms, Treeynon, Aberdar. Yr oedd yr ymadawedig yn enedigol o Gwm Nedd, ac o deulu ag oeddent wedi cael eu ddylanwadu gan yr hen Forgans' Blaengwrach. Wedi ei ddonio a chynneddfau naturiol tu hwnt i'r cyffredin, ac wedi arfer sylwi yn graff ar bob peth a welai; yr oedd yn un ag oedd bob amser yn ffurfio barn annibynol, ac yn dweyd ei feddwl yn ddiofn ac yn ddidderbyn-wyneb. Claddwyd ef yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, a phregethodd y gweinidog (y Parch. J. Jones) ar yr achlysur.

YR ATHRAWIAETH GRISTNOGOL YNGHYLCH Y CYMOD,

(The Christian Doctrine of the Atonement.)

Gan y Parch. T. Carter, Lewes, (gynt o Goleg Caerfyrddin)—Gwel yr Amlen.

Pregeth ydyw a draddodwyd yn Saesneg gan weinidog ieuanc, a chyfaill i amryw o ddarllenwyr yr Ymofynydd, ar destun o bwys a ddyddordeb cyffredinol, ac mewn attebiad i bregeth a draddodwyd yn yr un dref gan y pregethwr mawr poblogaidd, Mr. Spurgeon; yn yr hon yr oedd wedi ymosod yn draws ar ddaliadau yr Undodiaid. Yn ei waith gyntaf yn ceisio amddiffyn, o'r wasg, symlrwydd gwirionedd Crist, yn ngwyneb camddarluniadau, teimlodd yr awdwr yn gymwys, ac yn ol ein barn ni yn eithaf cymwys, i appelio at gydymdeimlad ei frodyr yn y ffydd, y rhai a adwaenai yn Nghymru. Yr oeddem yn bwriadu rhoddi cyfleithad o ranau o'r bregeth; ond nid yw ein gofod yn caniattau hyny. Amddiffynir athrawiaeth yr Ysgrythyr ar y pwnc mewn modd dirodres a tharawiadol.

Barddoniaeth.

BRENINIAETH CRIST.

"Fy mrenhiniaeth i nid yw o'r byd hwn,"
Ioan xviii. 36.

"Nid ydyw fy mrenhiniaeth i"
Yn honi dim daearol fri;
Ei holl drefniadau y'nt i gyd
Am bethau gwell ysbrydol fyd.

Ni chais un orsedd wych na lle,
Nag unrhyw lys o dan y ne';
Ei theyrnwialen yn mhob llun
Yw sedd o fewn i fynwes dyn.

Ni chais un cleddyf miniog llym,
Nag unrhyw nerth anianol rym;
Ond dylanwadau'r Dwyfol Dad
Yw nerth ei byddin yn mhob gwlad.

Hoff sail yr adeiladaeth gref
Yw egwyddorion cywir lef;
Ei harwyddair nefolaidd yw
Rai hedd i bawb o deulu Duw.

Ffieiddio balchder gwyr a thrais,
A mawredd bydol uchel gais;
Aberthau drud a yrr yn mhell,
Ei gwaith yw dysgu pethau gwell.

Ei hiau sydd esmwyth, hawdd ei dwyn,
A hollol rydd ei chyfraith fwyn;
Gwir gariad Ion yn rhadlon rhydd,
Yw breinlen hon, yn berffaith bydd.

Un cynhwrf byth nac erchyll frad
Ni chyfyd hon mewn unrhyw wlad;
Ond gwasgar hedd i bobloedd byd,
A byw mewn tangnef oll yn nghyd.

Ei deiliaid—cânt hwy fythol fyw
Yn mhlith goreuon cread Duw;
Gwyn fyd na bae'r freniniaeth hon
Yn llywodraethu'r byd o'r bron.

Ac yna derfydd gwaedlyd gais
Aruthrol drachwant meibion trais;
Ein daear fydd yn debyg 'nawr
I wên y nefoedd, eirian wawr.

Ac O na thorai'r wawr yn wir
Er lles ein byd, heb fod yn hir;
I bawb gydnabod un Duw'n Dad,
A'i wir addoli yn mhob gwlad.

Eiddil Glan Cynon.

Aberdar.

CAN.

Fy meddwl imi teyrnas yw;
Fath berffaith bleser ynddo gaf,
Sydd well na phob daearol ryw,
O wynfyd a osododd Naf.
Fy ngwardd, er bod fy eisiau'n fawr,
Gwna'm meddwl rhag adolwyn awr.

Mewn pêr foddlonrwydd 'rwyf yn byw,
Heb fwy na'm rhaid yn ceisio dim;
'Dwy'n chwenych rhwysg, na bod yn llyw—
Fy niffyg gweina'm meddwl im'.
Yn gorfoledda wyf fal hyn,
Gwna'm meddwl i yn foddlon ddyn.

Yn glaf 'rwy'n gweled llawer un
Ar lawndid pethau hyn o fyd;
A'r ucha'n eistedd gwelaf sy'n
'R enbydrwydd mwya'n bod o hyd;
Mewn ofn eu heiddo ceidw rhai'n;
Hyn fyth ni oddefai'm meddwl cain.

Heb gyfoeth, na thywysogaidd 'rwyf,
Heb nerth i orfod wrth fy arch,
Heb ddichell 'chwaith er gwella clwyf,
Na enill im' garwraidd barch:
I rhai'n yn gaeth ni wnaf fy hun—
Dirmyga'm meddwl hwynt bob 'run

Gormodedd sydd gan rai; ond hwy,
Gan grefu ragor, ânt yn dlawd;
Tra'm 'chydig i heb erfyn mwy,
Gyfrifaf imi'n ddedwydd ffawd:
Hwy'n dlawd,—gan nychu maent yn byw,
Tra'm bywyd innau—dedwydd yw.

Am golled arall nid wy'n llon,
Na byth yn grwgnach ar ei lwydd;
Fy meddwl ni chrŷn fydol dòn
A laddo all, goddefai'n rhwydd:
At gâr neu elyn un yw'm iaith,
'Dwy'n laru byw nag ofni chwaith.

Fy nghyfoeth ydyw iechyd pur,
Cydwybod glir fy nharian yw;
Boddhau ni cheisiaf drwy lwgr-hur—
Ni roddaf dramgwydd o un ryw:
Yn byw fal hyn wyf ar bob pryd,
O na wnai pawb 'run modd trwy'r byd.

Byth ni wna gwynfyd dae'r mi'n llon—
Ni phrisiaf gyfoeth yr holl fyd,
Lle ni cha pryder dan fy mron—
'Dwy'n ofni tynged unrhyw bryd:
Fy meddwl ni chynhyrfir gan
Rym cariad na phrydferthwch can.

'Dwy'n deisyf ond sydd eiddo im',
Am ragor byth ni chrwydraf gam;
Eisteddaf ar y làn yn ngrym
Y storm, a byddaf yn ddinam:
Gan chwerthin am y cyfryw rai
A geisiant bethau dibarhau.

Ni cheisiaf gynnyg cusan brâd,
Na dangos cariad lle bo câs,
Na cholli'm cwsg er cael lleshad
Na disgwyl oll wrth byrth y plâs
'N ddiangen—ni dirmyga'r tlawd,
Yn ddiormodedd; goraf ffawd.

Wrth nwyf eu pleser pwysa rai
Eu synwyr wrth gorphwylledd bodd;
Eu hyder yw eu trysor brau,
Deheurwydd rhai'n yw twyll di-godd:
Ond i myfi yr unig wledd
Yw cadw 'meddwl fyth mewn hedd.

Cyfd. W. B.

YR ENGLYN

canlynol a anfonwyd gan yr Awdwr i un o'r gwrtheillwyr cyntaf yn y Gymydogaeth.

Tori barf oedd hen arfer—i nodi
A f'ai'n adyn 'sgeler;
A phoblach afiach, ofer,
Gynal lwydd y swydd is sêr.

GWILYM GWENOG.

ATEB.

Diolch iti, Gwilym Gwenog,
Am brydyddiaeth gref a bywiog
'Blaid y gwr sy'n gomedd eillio
Barf ei ddwyên doed a ddelo.

GWRTHEILLIWR.

YCHYDIG BENILLION O'M CREDO.

Mr. Golygydd,—Yr wyf yn dymuno arnoch adael i'r ychydig linellau gwael isod ymddangos yn eich Cyhoeddiad clodwiw. Yr wyf yn 82 oed, ac felly yn hen ac yn fethiedig. Yr wyf yn perthyn i'r Undeb Undodaidd er y flwyddyn 1805, ac yn gobeithio parhau felly hyd fy medd, trwy ddwyn mawr sêl dros y gwirionedd, er yr holl erlid sydd arnaf yn yr amdal hon.

O! fy mrodyr mwyn caredig,
Gwnewch chwi wrando cwyn yr unig?
Sy'n ymosod gyda bwriad,
Er gwneud hunan-ymddiffyniad.

Yr wyf yn cael fy erlid beunydd
Am broffesu ffyrdd yr Arglwydd,
Yr hwn a roddodd i ni esiamplau,
Os gwnawn chwilio'r Ysgrythyrau.

'Rwyf yn credu'n un Duw tragwyddol,
Hollalluog, doeth, a grasol;
Ac yn Iesu y Cyfryngwr,
Rheol auraidd y troseddwr.

Yr hwn amlygodd y Gwirionedd—
Ei ddirgelwch oll a'i fawredd;
Trwy hysbysu i ddynoliaeth
Ffordd i ochel damnedigaeth.

Er milwrio am flynyddau
Trwy'r croes-wyntoedd mawr a'r tonau,
Etto credaf yn ddiysgog
Mewn un Duw, yr Hollalluog.

Crefaf hefyd eich barn am y geiriau—"Un Arglwydd, un ffydd, ac un bedydd,"—heblaw eich golygiadau ar Ioan i. 1 a'r 14.

Yr eiddoch yn y ffydd Undodaidd,

DAFYDD GRIFFITHS,
Twynyrodyn, Merthyr Tydfil

Gorph. 13*eg*, 1860.

ENGLYN I ORPHWYSFA.

Mae mâd, anwyl wlad y Nef—a didawl
Wynfydedig dangnef:
I bob grâdd mae Duw'n addef
A fu byw yn ei Fab ef. R. D.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.